



CASCADe

Children's Social Care
Research and Development Centre

Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant

Adolygiad o ymchwil a chyfraith achosion ar ddieithrio plentyn oddi wrth riant

Julie Doughty, Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth
Nina Maxwell a Tom Slater, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol
Prifysgol Caerdydd

Comisiynwyd gan Cafcass Cymru
Ebrill 2018

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

© Hawlfraint y Goron 2018

Cyhoeddwyd Ebrill 2018

ISBN 978-1-78937-214-4

Cewch aildddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos a rhai delweddau) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL). I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn i

Cafcasscymru@llyw.cymru

CYNNWYS

1.0 Cyflwyniad	5
2.0 Y Gyfraith a chyd-destun.....	7
2.1 Egwyddorion a gymhwysir gan y llys mewn penderfyniadau am gyswllt.....	7
2.2. Barn y plentyn	9
2.3 Y llysoedd a dieithrio plentyn oddi wrth riant / gelyniaeth ddifaddeuant	10
2.4 Y cyd-destun presennol	13
3.0 Dull	15
3.1 Adolygiad o lenyddiaeth empirig ar ddieithrio plentyn oddi wrth riant.....	15
3.2 Adolygiad o gyfraith achosion.....	15
3.3 Cyfyngiadau'r sail dystiolaeth.....	15
4.0 Adolygiad cyflym o dystiolaeth empirig ar ddieithrio plentyn oddi wrth riant	17
4.1 Diffiniad o ddieithrio plentyn oddi wrth riant.....	17
4.2 Nifer yr achosion o ddieithrio plentyn oddi wrth riant	19
4.3 Penderfynyddion dieithrio plentyn oddi wrth riant	19
4.4 Effeithiau tymor hir ar y plentyn.....	21
4.5 Ymchwil sy'n ymateb i arfer	22
4.6 Ymyriadau a thriniaeth.....	24
4.7 Casgliad	27
5.0 Adolygiad o gyfraith achosion	29
5.1 Achosion Llys Apêl diweddar	29
5.2 Achosion Llys Apêl ac Uchel Lys lle gwnaed honiadau o ddieithrio plentyn oddi wrth riant ond na chawsant eu cadarnhau.....	31
5.3 Achosion Llys Apêl ac Uchel Lys lle nodwyd mater o ddieithrio...	32
5.4 Llys Hawliau Dynol Ewrop	34
5.5 Llys Teulu.....	35
5.6 Casgliad	35

6.0 Trafodaeth a chasgliadau	38
6.1 Dieithrio plentyn oddi wrth riant, PAS a gelyniaeth ddifaddeuant	38
6.2 Ymdrin â honiadau o ddieithrio plentyn oddi wrth riant mewn achosion llys.....	39
6.3 Opsiynau ar gyfer y llys.....	40
6.4 Sylw diweddar yn y cyfryngau.....	42
6.5 Casgliadau.....	42
7.0 Goblygiadau allweddol ar gyfer ymarfer	44
8.0 Cyfeiriadau	46
Atodiad A.....	52
Atodiad B.....	60

1.0 Cyflwyniad

Mae'r adolygiad hwn o ymchwil a chyfraith achosion ar bwnc dieithrio plentyn oddi wrth riant yn ceisio darparu sail dystiolaeth i arwain arfer ar gyfer Cafcass Cymru. Cafodd y cysyniad o ddieithrio plentyn oddi wrth riant ei nodi gyntaf gan Wallerstein a Kelly yn 1976, ond honiad Gardner yn 1987 bod dieithrio plentyn oddi wrth riant yn syndrom, hynny yw, yn gyflwr meddyliol a ddioddefir gan blant a oedd wedi'u dieithrio gan eu mamau, sydd wedi arwain at ddadl dros y 30 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, er gwaethaf cyfoeth o bapurau a ysgrifennwyd gan academyddion, gweithwyr proffesiynol cyfreithiol ac iechyd meddwl, mae prinder tystiolaeth empirig ar y pwnc.

Dim ond ychydig o awduron sydd flaenaf o ran gwaith ymchwil yn y maes hwn ac ymddengys fod yr awduron hyn wedi'u pegynu o ran derbyn neu wrthod natur dieithrio plentyn oddi wrth riant a nifer yr achosion ohono. Mae amrywioldeb o'r fath yn golygu nad oes diffiniad a dderbynnir yn gyffredin o ddieithrio plentyn oddi wrth riant a chadarnhad gwyddonol annigonol o ran nodi, trin ac effeithiau hirdymor (Saini, Johnston, Fidler a Bala, 2016). Heb dystiolaeth o'r fath, mae'r label syndrom dieithrio plentyn oddi wrth riant (PAS) wedi cael ei gymharu ag 'arf niwclear' y gellir ei ddefnyddio yn y system gyfreithiol wrthwynebol yn y frwydr am breswylfa plentyn (Schepard, 2001). Felly, mae Meier (2009) ac eraill (e.e. Bala, Hunt a McCarney, 2010; Johnston, Walters ac Oleson, 2005; Lee ac Oleson, 2005; Clarkson a Clarkson, 2006) wedi pwysleisio'r angen i wahaniaethu rhwng dieithrio plentyn oddi wrth riant ac ymddieithrio y gellir ei gyfiawnhau yn sgil cam-drin, trais neu rianta diffygiol, a lle gall honiadau o ddieithrio plentyn oddi wrth riant fod yn

far more often used in practice to deny real abuse than to actually reduce psychological harm to children
(Meier, 2009:250)

Byddai gwahaniaethu o'r fath yn cynnwys perthynas y plentyn â'r rhiant a ddieithriwyd cyn yr honiadau o ddieithrio plentyn oddi wrth riant yn ogystal â'r ddynnameg ehangach y teulu (Lee ac Oleson, 2005). At hynny, mae Meier (2009) yn rhybuddio er gwaethaf gwrthod dieithrio plentyn oddi wrth riant fel syndrom penodol ar seiliau gwyddonol, mae cadw'r term 'dieithrio plentyn oddi wrth riant' yn dal i gael ei ddefnyddio mewn arfer i gyfeirio at syndrom dieithrio plentyn oddi wrth riant. Er bod y term 'dieithrio plentyn oddi wrth riant' yn cael ei ddefnyddio'n eang yn yr UD, Canada ac Ewrop, mae'n well gan y llysoedd yng Nghymru a Lloegr ddefnyddio'r term 'gelyniaeth ddifaddeuant' i gyfeirio'n fwy eang at

achosion o wrthdaro uchel lle gall un rhiant ddangos gelyniaeth neu amharodrwydd o ran y rhiant arall yn cael cyswllt â'r plentyn.

Yn yr adolygiad hwn, rydym yn defnyddio'r term 'dieithrio plentyn oddi wrth riant', a ddiffinnir fel gwrthod diangen y rhiant a ddieithriwyd gan y plentyn, y mae ei gynghrair â'r rhiant sy'n dieithrio wedi'i nodweddu gan negyddoldeb eithafol tuag at y rhiant a ddieithriwyd. Mae hyn yn digwydd pan fydd gweithredoedd y rhiant sy'n dieithrio (yn fwriadol neu'n anfwriadol), yn effeithio'n andwyol ar y berthynas â'r rhiant a ddieithriwyd (Baker a Darnall, 2007).

Rydym yn defnyddio'r term 'cyswllt' yn yr ystyr gwreiddiol yn adran 8 o Ddeddf Plant 1989, fel y'i diwygiwyd ym mis Ebrill 2014 i 'dreulio amser gyda' rhiant o dan orchymyn trefniadau plentyn.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau drwy nodi'r gyfraith berthnasol a chyddestun yr adolygiad, wedi'i ddilyn gan ddisgrifiad o'r dulliau a ddefnyddiwyd. Yna cyflwynir y llenyddiaeth ymchwil, wedi'i dilyn gan adolygiad o gyfraith achosion.

Mae'r adroddiad yn gorffen gyda rhywfaint o drafod, casgliadau a negeseuon allweddol ar gyfer ymarfer.

2.0 Y Gyfraith a chyd-destun

2.1 Egwyddorion a gymhwysir gan y llys mewn penderfyniadau am gyswllt

Mae'r cysyniad o gyfrifoldeb rhiant parhaus a'r egwyddor 'dim gorchymyn' yn adran 1(5) o Ddeddf Plant 1989 yn sail i ragdybiaeth mai cyd-gyfrifoldeb rhieni ydyw yn bennaf i sicrhau bod cyswllt yn gweithio'n ddiogel ac yn fuddiol i'r plentyn, ac nid yw'n gyfrifoldeb ar y llys nac asiantaeth fel Cafcass Cymru neu awdurdod lleol (gweler **Re W (Direct Contact) [2012] EWCA Civ 999**).¹

Cylch gwaith yr adolygiad hwn yw rhieni'n gwrthod cyswllt heb reswm rhesymegol neu gyfiawnadwy, ac felly mae'n canolbwyntio ar y gyfraith ac arfer lle nad oes unrhyw faterion eraill, fel cam-drin neu bod yn dyst i drais domestig.² Diben yr adroddiad hwn yw darparu sail dystiolaeth ar gyfer ymateb i anghydfodau lle nad yw gwrthwynebiad rhiant neu blentyn preswyl i gyswllt yn seiliedig ar unrhyw risg ac felly mae'n ymddangos yn afresymegol. Mae hyn yn adlewyrchu categori (e) yn y deipoleg o elyniaeth ddifaddeuant a roddwyd gan Sturge a Glaser (2000), a nodir yn 2.3 isod.

Wrth wneud penderfyniad am gyswllt rhwng plentyn a'i riant o dan adran 8, bydd y llys yn dilyn yr egwyddorion canlynol (**Re O (Contact: imposition of conditions [1995] 2 FLR 124**):

1. Lles y plentyn yw'r brif ystyriaeth.
2. Mae er lles pennaf plentyn i gael cyswllt â rhiant dibreswyl, lle mae hyn yn ddiogel.
3. Mae gan y llys bwerau i orfodi gorchymynion ar gyfer cyswllt a gall arfer y pwerau hyn pe byddai'n hyrwyddo lles y plentyn.
4. Lle nad yw cyswllt uniongyrchol yn ddiogel, mae cynnal cyswllt anuniongyrchol fel arfer er lles pennaf y plentyn.

Mae'r egwyddorion hyn yn deillio o'r egwyddor lles yn adran 1 o Ddeddf Plant 1989 ac yn deillio o hynny, yr hawl i barch ar gyfer bywyd preifat a theulu Erthygl 8 Siarter Hawliau Dynol Ewrop, ac erthyglau amrywiol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cafodd effaith deddfwriaeth a chyfraith achosion ei chrynhai gan y Llywydd yn **Re C**

¹ Fodd bynnag, mae cyfran o rieni sydd wedi gwahanu nad ydynt yn gallu cytuno ar drefniadau a cheir hanes hir o ddatblygu polisi a diwygio'r gyfraith ers gweithredu'r Ddeddf, yn enwedig ers *Making Contact Work* (Advisory Board on Family Law, 2002).

² Fel y cydnabuwyd yn *Re L & ors* (gweler 2.3 isod) a'i ategu'n fwy diweddar yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 12J Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010, nid oes rhagdybiaeth yn erbyn cyswllt gyda rhiant dibreswyl sydd wedi bod yn gyflawnwr cam-drin. Felly gall fod gan riant preswyl bryderon parhaus, hyd yn oed lle mae llys wedi asesu bod y trefniadau cyswllt yn ddiogel. Mae gwrthwynebu neu wrthod cyswllt gan y rhiant neu'r plentyn preswyl lle mae cam-drin wedi digwydd yn ymestyn tu hwnt i'n cylch gorchwyl.

[2011] EWCA Civ 521, a atgynhyrchir isod. Mae'r darn isod wedi'i ddyfynnu *air-am-air* mewn nifer o achosion dilynol am gyswllt fel y sail bresennol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y llysoedd.

- Mae cyswllt rhwng y rhiant a'r plentyn yn elfen hanfodol o fywyd teuluol ac mae bron bob amser er budd y plentyn.
- Dylai cyswllt rhwng y rhiant a'r plentyn gael ei derfynu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, lle ceir rhesymau cryf dros wneud hynny a lle nad oes dewis arall. Dylai cyswllt gael ei derfynu dim ond os bydd yn niweidiol i les y plentyn.
- Mae rhwymedigaeth gadarnhaol ar y Wladwriaeth, ac felly ar y barnwr, i gymryd camau i gynnal ac ailsefydlu'r berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn, yn fyr, i gynnal neu adfer cyswllt. Mae gan y barnwr ddyletswydd gadarnhaol i geisio hyrwyddo cyswllt. Rhaid i'r barnwr fynd i'r afael â'r holl ddewisiadau eraill sydd ar gael cyn rhoi'r gorau i'r gobaith o gyflawni rhywfaint o gyswllt. Rhaid iddo fod yn ofalus i beidio â dod i benderfyniad cyn pryd, oherwydd dylid atal cyswllt fel dewis olaf yn unig a dim ond pan fydd yn glir na fydd y plentyn yn cael budd o barhau'r ymgais.
- Dylai'r llys gymryd safbwynt tymor canolig a hirdymor a pheidio â rhoi pwys gormodol ar yr hyn sy'n ymddangos yn debygol o fod yn broblemau tymor byr neu dros dro.
- Y cwestiwn allweddol, sy'n ei gwneud yn ofynnol cael "craffu llymach", yw a yw'r barnwr wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i hwyluso cyswllt fel y gellir mynnu yn rhesymol o dan amgylchiadau'r achos penodol.
- Wedi dweud hynny i gyd, ar ddiwedd y dydd mae lles y plentyn yn hollbwysig; "rhaid i les y plentyn gael blaenoriaeth dros unrhyw ystyriaeth arall".

Re C [2011] EWCA Civ 521 ym mharagraff 49.

Mae'r crynodeb yn *Re C* yn hŷn na diwygiad i adran 1 o Ddeddf Plant 1989 o fis Ebrill 2014, ond heb ei amrywio ganddo, a wnaeth ychwanegu'n glir ragdybiaeth o gyfranogiad parhaus rhwng plentyn a'r ddau riant:

(2A) Dylai llys pan fo'n ystyried a ddylid gwneud, amrywio neu gyflawni gorchymyn adran 8 ar gais sy'n gwrthwynebu ragdybio, oni bai y dangosir i'r gwrthwyneb, y bydd cynnwys y rhiant hwnnw ym mywyd y plentyn dan sylw yn hyrwyddo lles y plentyn.

(2B) Yn is-adran (2A) mae cynnwys ('involvement') yn golygu cynnwys o ryw fath, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ond nid unrhyw raniad penodol o amser plentyn.

Gellir gweld enghraifft gref o'r rhesymu yn *Re C* yn yr achos **Re M (Children) 2017 EWCA Civ 2164** lle penderfynodd y Llys Apêl ei bod yn anghywir gwneud gorchymyn 'dim cyswllt' rhwng pum plentyn (rhwng tair a 13 oed) a'u tad, a oedd wedi newid rhyw ac yn byw fel menyw. Y ffeithiau yn yr achos hwnnw oedd bod y tad wedi'i ddieithrio oddi wrth y gymuned gyfan (Iddewig Uniongred) lle roedd y plant wedi'u magu, am ei fod yn drawsryweddol. Byddai'r plant yn cael eu gwrthod hefyd pe byddent yn cael cyswllt uniongyrchol ag ef. Er nad oedd hwn yn achos lle mai mam y plant, na hyd yn oed y teulu estynedig, oedd yn gwrthwynebu cyswllt, gwnaeth Munby P gyfatebiaeth:

Where an intransigent parent is fostering in their child a damaging view of the other parent, and thereby alienating the child from the other parent and denying contact between them, the court does not hesitate to invoke robust methods where that is required in the child's interests. [64]

Aeth ymlaen i nodi bod y dulliau cadarn hyn fel a ganlyn:

- Trosglwyddo preswylfa (naill ai ar unwaith neu'n ohiriedig);
- Gwardiaeth; neu
- Orchymyn am ymchwiliad adran 37.

Caiff y rhain a dulliau eraill a ddefnyddir gan y llysoedd eu disgrifio yn yr adolygiad o gyfraith achosion (Adran 5.0 isod).

2.2. Barn y plentyn

Mae ymarferwyr yng Nghymru yn gweithio o fewn fframwaith cyfreithiol hawliau a llesiant plant sy'n rhoi sylw dyledus i hawl plentyn i gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau amdanynt (Mesur Hawliau Plant 2011; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

Wrth i blant fynd yn hŷn, mae eu gallu datblygol yn golygu bod eu hawliau i gyfranogiad o dan Erthygl 12 CCUHP yn cynyddu'n raddol. Fel y mynegwyd gan Thorpe LJ yn **Mabon v Mabon [2005] EWCA Civ 634**, rhaid i'r llysoedd, wrth ddiogelu hawliau Erthygl 12, dderbyn (plant croyw yn eu harddegau yn yr achos hwnnw) bod yr hawl i ryddid mynegiant a chyfranogi yn gwrthbwysu'r dyfarniad lles tadofalaethol. Mae angen i farnwyr fod yn effro i'r risg o niwed emosiynol a allai godi o wrthod gwybodaeth am achos i blentyn a'i gyfranogiad ynddo.

Fodd bynnag, mae ymchwil ar farn plant mewn achosion cyfraith breifat yn brin, gyda dieithrio plentyn oddi wrth riant yn peri cyfyng-gyngor lle

gall mabwysiadu safbwynt hawl plentyn fod yn annefnyddiol os bu'r plentyn yn destun trwythiad rhiant sy'n dieithrio, ond eto yn torri eu hawliau os ydynt yn cael eu gorfodi i ailuno â'r rhiant sy'n dieithrio (Bala, Hunt a McCarney, 2010)

Mae astudiaeth ôl-weithredol Fortin, Hunt a Scanlan yng Nghymru a Lloegr o farn plant sy'n oedolion bellach ar gyswllt (2012) yn dod i'r casgliad nad oedd tystiolaeth o blant yn gwrthod cyswllt yn gyfan gwbl oherwydd pwysau gan eu mamau, ond yn hytrach ar gyfer rhesymu'r plentyn ei hun yn aml yn priodoli'r bai ar y rhiant dibreswyl. Roedd priodoli o'r fath yn cynnwys diffyg diddordeb gan y rhiant, gwrthod gan bartner newydd yn ogystal â ffactorau ymarferol fel pellter ac ymrwymiad gwaith y rhiant dibreswyl. Felly, lle nodwyd dylanwadu gan y rhiant preswyl, mae Fortin *et al* yn haeru bod hyn mewn achosion prin yn unig ac oddi wrth blant ifanc yn bennaf. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y dylid, cyn i lys gymryd y cam llym o ddiystyru dymuniadau plentyn, archwilio'r achos sylfaenol o wrthod yn ofalus iawn er mwyn sicrhau nad oedd gwybodaeth bwysig am berthynas y plentyn â'r rhiant dibreswyl wedi'i diystyru.

Mae'r llysoedd wedi cydnabod hyd yn oed lle mae'r cydbwysedd rhwng lles plentyn a'i hawl i fynegi gwrthwynebiad i gyswllt wedi arwain at benderfyniad llys o blaid cyswllt, gall fod yn afrealistig gwneud gorchmynion na ellir eu gorfodi (**Re G [2013] EWHC B 16**). Gall ceisio gorfodi plentyn hŷn i drefniadau y mae'n eu gwrthwynebu waethygu'r broblem. Gall fod yn fwy ystyrlon ceisio darparu cyfleoedd i drafod (**Re S (Contact: Children's views [2002] EWHC 540 (Fam))**).

Fel y nodwyd yn *Re C* ac *Re A* (uchod), bydd y dadansoddiad lles a gynhelir gan y llys yn berthnasol i ddymuniadau a theimladau presennol y plentyn, ond gall hanes eu perthynas fod yn berthnasol o hyd. Dylai'r llys ymchwilio i benderfyniad sydyn anesboniadwy i wrthod gweld rhiant (**Re T (A Child: Contact) [2002] EWCA Civ 1736**).

2.3 Y llysoedd a dieithrio plentyn oddi wrth riant / gelyniaeth ddifaddeuant

Mae anghydfodau sydd wedi dod yn hirfaith a/neu yn ddifrifol, yn absenoldeb risg o gam-drin a thrais, yn aml yn cael eu disgrifio mewn cyd-destun cyfreithiol fel rhai 'anhydrin'. Er bod y term 'syndrom dieithrio plentyn oddi wrth riant' (PAS) wedi'i wrthod gan y llysoedd, weithiau caiff gwrthod cyswllt heb gyfiawnhad gan y rhiant preswyl ei ddisgrifio mewn dyfarniad llys fel 'dieithrio plentyn oddi wrth riant' a/neu 'elyniaeth ddifaddeuant' (Gweler yr Adolygiad o Gyfraith Achosion, Adran 5.0).

Yr awdurdod barnwrol arweiniol ar 'syndrom' dieithrio plentyn oddi wrth riant (fel y'i disgrifiwyd bryd hynny) o hyd yw **Re L, V, M and H**

(Children) [2000] EWCA Civ 194, lle derbyniodd y Llys Apêl dystiolaeth seiciatrig arbenigol Dr Sturge a Dr Glaser am ddadl a gyflwynwyd gan dad dibreswyl bod y ffaith bod ei blentyn wedi mynegi ofn ohono o ganlyniad i syndrom dieithrio plentyn oddi wrth riant (PAS). Mae'r dyfarniad llys yn cynnwys rhan o adroddiad Sturge a Glaser fel a ganlyn:

- Nid oedd PAS yn gysyniad defnyddiol ac roedd yn well meddwl am y problemau yr oedd teitl yr anhwylder hwn yn ceisio mynd i'r afael â hwy fel gelyniaeth ddifaddeuant.
- Mae PAS yn tybio achos (o riant preswyl annoeth neu filain) sy'n arwain at ymyriad rhagnodedig.
- Mae gelyniaeth ddifaddeuant yn ddatganiad wedi'i anelu at ddealltwriaeth o sefyllfaoedd penodol, y mae amrywiaeth o esboniadau yn bosibl, a lle nad oes un ateb unigol ac wedi'i ragnodi, gan ddibynnu ar natur ac unigolrwydd pob achos.
- Mae'r cysyniad sylfaenol yn PAS yn 'un unffordd' o broses linol ond mae ffactorau, yn lle hynny, yn ddynamig ac yn rhyngweithio ag agweddau ar berthynas y naill riant â'r llall gan rhyngweithio i greu'r sefyllfa anodd lle nad oes cynnydd.
- Roedd y rhesymau posibl dros riant preswyl yn cymryd safbwynt o elyniaeth ddifaddeuant tuag at ei gyn-bartner ac o ran cyswllt fel a ganlyn:

“(a) Ofn cwbl gyfiawn o niwed neu herwgydio o ganlyniad i unrhyw gyswllt uniongyrchol â'r rhiant dibreswyl.

(b) Ofn trais neu fygythiad arall ac yn felltith i'w hun pe byddai'r rhiant dibreswyl yn cael cyswllt anuniongyrchol â hi drwy'r plentyn, h.y. gallai arwain at gyswllt uniongyrchol.

(c) Symptomau wedi trawma yn y rhiant gwarchodol sy'n cael eu gwaethygu'n ddifrifol gan y posibilrwydd neu'r ffaith o gyswllt.

(d) Canlyniadau perthynas lle roedd anghydbwysedd amlwg o ran y pŵer a arferwyd gan y ddau riant a lle mae'r fam³ yn ofni y bydd yn cael ei thanseilio'n llwyr a dod yn ddiymadferth ac yn annigonol eto os oes unrhyw sianel o gyswllt rhyngddi hi a'r cyn-bartner, hyd yn oed pan fo hynny'n cynnwys y

³ Er hynny nodwch fod y llenyddiaeth a'r achosion yn canolbwyntio ar y rhiant preswyl fel y rhiant sy'n dieithrio, felly bydd hyn yn tueddu i fod yn famau, ond nid bob amser.

plentyn yn unig. Gellir defnyddio'r plentyn fel arf mewn ymgais o'r fath i barhau i gael pŵer dros y fam. Fel yn achos (a), (b), ac (c) uchod gall hyn fod o *ganlyniad* i drais domestig.

(e) Gelyniaeth cyfan gwbl unochrog nad yw'n seiliedig ar ddigwyddiadau neu brofiad go iawn. Gall hyn fod yn ymwybodol ac yn faleisus neu mae canfyddiad ei fod yn wir. Mae'r olaf yn cynnwys y continwwm llawn o gamsyniadau a chamddealltwriaeth drwy syniadau y rhoddir gormod o werth arnynt i gyflyrau rhithiol. Gall y cyntaf ddeillio o ddymuniad syml i gael llechen lân a dechrau eto a gellir gweld hyn ar ôl perthynas a oedd yn rhamantus neu'n ddelfrydol iawn i ddechrau a phan fydd y berthynas yn chwalu gall y fenyw roi cyfrif am hyn dim ond drwy ddiffrïo'r partner er mwyn osgoi wynebu'r posibilrwydd mai ei methiant hi oedd yn gyfrifol am y berthynas yn chwalu ac mae'n arwain at wrthod."

Defnyddiodd Sturge a Glaser y term 'difaddeuant' ar gyfer y pum categori i ddisgrifio dwyster a natur ddigyfnwidd yr elyniaeth nad oedd unrhyw fath o gyfryngu yn debygol o'i newid. Nodwyd bod gelyniaeth ddifaddeuant yn aml yn ddwy ffordd, gyda'r rhiant dibreswyl mor elyniaethus tuag at y rhiant preswyl â'r ffordd arall.

Fodd bynnag, yn y blynyddoedd ers eu hadroddiad a derbyn canllawiau Sturge a Glaser ar gyswllt a cham-drin domestig, y duedd fu i'r llysoedd ddefnyddio'r term 'gelyniaeth ddifaddeuant' yn fwy cul ar gyfer categori (e) uchod, ac weithiau fel term sy'n gyfystyr â dieithrio. Gellir gwahaniaethu categorïau (a) i (d) oddi wrth (e) oherwydd bod gan y categori blaenorol sail resymegol ar gyfer gwrthod cyswllt, y dylai tystiolaeth ohono fod ar gael i'r llys.

Er bod y llysoedd yng Nghymru a Lloegr yn dal i ddilyn y penderfyniad yn *Re L & ors* nad yw PAS yn ddisgrifydd defnyddiol, maent wedi derbyn fod sefyllfaoedd eithriadol lle y gall gelyniaeth ymestyn i farn y plentyn o'r rhiant dibreswyl, i'r graddau bod barn y plentyn o'r perthnasodd yn cael ei gwyrddroi. Mae cyfeiriad uniongyrchol at y term 'dieithrio plentyn oddi wrth riant' mewn dyfarniadau a adroddwyd yn gymharol brin, ond ceir nifer bach am blant sydd i bob pwrpas wedi'u dieithrio oddi wrth riant sy'n 'dda' fel arall. Mae'r achosion hyn, ynghyd â dyfarniadau lle mae'r term yn ymddangos, wedi'u cynnwys yn yr adolygiad o gyfraith achosion isod (adran 5.0).

2.3 Gweithdrefn bresennol ynghylch traws-honiadau o gam-drin domestig a dieithrio plentyn oddi wrth riant

Mae achos a adroddwyd yn ddiweddar yn y Llys Apêl, **Re J [2018] EWCA Civ 115** yn pwysleisio bod traws-honiadau o gam-drin yn ei gwneud yn ofynnol nodi'r materion ar gam cynnar i benderfynu materion o gam-drin domestig ac a fydd RhTT CY 12J yn berthnasol i reoli achosion. Mae methiant i benderfynu ar y ffeithiau sylfaenol, gan gynnwys dadleuon a wneir gan y rhiant am ddieithrio, yn golygu nad yw'r llys mewn sefyllfa hyddysg i benderfynu pa rai o'r amrywiaeth o opsiynau a allai fod ar gael a fyddai'n diwallu anghenion y plant orau. Dylid cynnal gwrandawriad canfyddiad ffeithiol cyn bod adroddiad adran 7 yn cael ei orchymyn. Mae CY 12J wedi'i fwriadu i wella arfer a fu'n anghyson gynt (Hunter a Barnett 2013) drwy roi sylw mwy trylwyr i benderfyniad cynnar ar faterion am gam-drin; nid yw ei effeithiolrwydd wedi'i werthuso hyd yma.

2.4 Y cyd-destun presennol

Nid oes unrhyw beth yn y dyfarniadau cyhoeddedig yn awgrymu bod dieithrio wedi dod yn fwy cyffredin yng Nghymru a Lloegr dros y blynyddoedd diwethaf. (Rydym yn ymdrin â'r broblem o ran amcangyfrif nifer yr achosion yn adran 4.2 isod) ac nid oes data ar gael i'r cyhoedd gan y Gwasanaeth Llys, Cafcass (Lloegr), Cafcass Cymru, nac asiantaethau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, yn ymwneud â chyfrannau neu achosion o ddieithrio.

Fodd bynnag, ymddengys fod diddordeb y cyhoedd yn y pwnc wedi cynyddu ers i *The Guardian* gyhoeddi stori tudalen flaen:

A. Hill, *The Guardian* 17 Tachwedd 2017 'Divorcing parents could lose children if they try to turn them against partner

Measures being trialled to prevent 'parental alienation' feature penalties including permanent loss of contact with child'

Dilynodd yr erthygl hon yn fuan iawn yn *Community Care*:

L. Stevenson, *Community Care* 18 Rhagfyr 2017 'Parental alienation: It is critical social workers know how to recognise this'

Cafcass is currently developing a high-conflict pathway to manage parental alienation cases'

Mae erthygl Hill yn seiliedig yn rhannol ar gyfweiliad â Sarah Parsons, y Prif Weithiwr Cymdeithasol yn Cafcass (Lloegr). Fodd bynnag, nid yw'r sylw hwn;

'Parental alienation is estimated to be present in 11%-15% of divorces involving children, a figure thought to be increasing.'

i'w briodoli i Sarah Parsons, ond i drosolwg o astudiaeth hŷn yn yr UD (Fidler a Bala 2010). Mae Sarah Parsons ar ôl hynny wedi cywiro rhai agweddau ar erthygl *The Guardian* (The Transparency Project, 2017).

Mewn dadansoddiad cyfoes i Cafcass (Lloegr) o achosion cyswllt a ddychwelodd i'r llys, nid oes cyfeiriad at ddieithrio plentyn oddi wrth riant (Halliday, Green a Marsh 2017). Cafodd yr ymchwiliad hon fod mwyafrif yr achosion a ddychwelodd i'r llys yn sgil gwrthdaro rhwng oedolion gyda'r thema allweddol bod partïon sy'n oedolion yn methu cyfathrebu am faterion, ynghyd ag amheuaeth ac anffafiaeth gronig, gan arwain at ddefnyddio'r llys i ddatrys anghydfodau. Awgrymwyd bod plant yn dioddef niwed emosiynol lle roeddent yn teimlo eu bod wedi'u gorlethu â chyfrifoldeb am y trefniadau cyswllt yn gweithio neu ddim yn gweithio. Er bod yr ymchwiliad hon wedi'i chyhoeddi yn yr un mis ag erthygl *The Guardian*, nid yw'n cynnwys unrhyw gyfeiriad at ddieithrio fel ffactor.

Felly nid yw'r sylw yn y cyfryngau yn adlewyrchu unrhyw achosion cynyddol o achosion o ddieithrio yng Nghymru a Lloegr, ond yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth y naill ffordd, gall yr awgrym dim ond godi pryderon mewn maes polisi sydd eisoes yn emosiynol.

Casgliad

Mae'r gyfraith a pholisi yn seiliedig yn gadarn ar yr egwyddor bod anghenion hawliau a lles plentyn fel arfer yn cael eu diwallu orau drwy gynnal cyswllt â'r ddau riant, lle mae hyn yn ddiogel. Er bod y derminoleg wedi newid ers i ganllawiau'r Llys Apêl yn *Re L & ors* wrthod syndrom dieithrio plentyn oddi wrth riant (PAS) yn 2000, roedd y cysyniad o elyniaeth ddifaddeuant – a all fod yn bresennol am amrywiaeth o resymau – yn cael ei gydnabod gan y llysoedd ac mae hyn yn dal yn wir. Fodd bynnag, nid yw gelyniaeth ddifaddeuant yn cael ei derbyn ynddi'i hun fel rhwystr i wneud gorchmynion ar gyfer cyswllt. Yn wir, mae'r farnwriaeth yn pwysleisio'r ymdrechion y dylid eu gwneud i oresgyn gelyniaeth a sicrhau bod cyswllt ystyrlon yn digwydd. Nid yw'n eglur o bell ffordd beth yw'r rhesymau sydd wrth wraidd yr adfywio amlwg yn 2017 o 'ddieithrio plentyn oddi wrth riant' sy'n ddisgrifiadol o rai plant sy'n destun anghydfodau cyswllt.

3.0 Dull

3.1 Adolygiad o lenyddiaeth empirig ar ddieithrio plentyn oddi wrth riant

Cafodd dull adolygu cyflym ei fabwysiadu er mwyn gallu cynnal chwiliad strwythuredig a thrylwyr o fewn amserlen gyfyngedig yr adolygiad (gweler Thomas, Newman a Sandy, 2013). Gwnaeth y strategaeth ymchwil ddefnyddio amrywiaeth o gronfeydd data a ffynonellau data electronig i sicrhau sylw i ddogfennau polisi diweddar, llenyddiaeth lwyd a thystiolaeth academiaidd a gyhoeddwyd ers 2000. Cafodd chwiliadau eu hategu gan chwilio ar y rhynggrwyd a chwilio cyfnodolion â llaw, yn ogystal ag argymhellion gan weithwyr proffesiynol. Mae Atodiad B yn darparu diagram llif a rhagor o wybodaeth am dermau chwilio ac eithriadau.

Cafodd cyfanswm o 45 o ffynonellau eu cynnwys ar gyfer yr adolygiad llenyddiaeth. Mewn rhai mannau, defnyddiwyd sylwadaeth gyhoeddedig, lle mae'n adlewyrchu'n uniongyrchol yr ymchwil a adolygwyd. Rhoddir crynodeb o ganfyddiadau allweddol mewn perthynas â themâu a ddaeth i'r amlwg (adran 4.0).

3.2 Adolygiad o gyfraith achosion

Cynhaliwyd adolygiad o gyfraith achosion o dair cronfa ddata sy'n cadw dyfarniadau llys a adroddwyd neu a gyhoeddwyd:

- BAILII (ar gael am ddim yn www.bailii.org)
- Llyfrgell Westlaw a Lexis (tanysgrifiad yn unig)
- HUDOC (ar gael am ddim ar gyfer achosion a gyhoeddwyd o Lys Hawliau Dynol Ewrop yn <https://hudoc.echr.coe.int/eng>).

Mae Atodiad B yn cynnwys gwybodaeth am dermau a chanlyniadau chwilio, sy'n cael eu dadansoddi yn adran 5.0.

3.3 Cyfyngiadau'r sail dystiolaeth

Ni ddylai ein hadolygiad gael ei weld fel archwiliad cynhwysfawr o'r holl lenyddiaeth ar y pwnc hwn. Yn hytrach, mae'n cynrychioli ymgais i nodi ac arfarnu tystiolaeth empirig. Er gwaethaf y llenyddiaeth ymddangosiadol fawr ar ddieithrio plentyn oddi wrth riant, mae prinder astudiaethau empirig cadarn. Ymddengys fod llawer o'r maes yn cael ei roi i ddarnau trafod sy'n cael eu dominyddu gan nifer bychan o awduron. Nid ydym yn cynnig barn ar rinweddau a chyfyngiadau'r darnau hyn o drafodaeth. Nid yw'r trosolwg a ddarparwyd drwy'r adolygiad hwn wedi' nodi sut mae'r sail dystiolaeth bresennol yn cael ei defnyddio gan lysoedd yng Nghymru a Lloegr. Yn anaml mae dyfarniadau llys yn cyfeirio'n glir at ddarnau penodol o lenyddiaeth; mae trafodaethau o'r fath yn aml wedi'u cyfyngu i

adroddiadau tystion arbenigol a gyflwynir i'r llys – nid yw'r adroddiadau hyn yn y parth cyhoeddus.

Mae llawer o'r llenyddiaeth ar ddieithrio plentyn oddi wrth riant wedi canolbwyntio ar ddadleuon am ei fodolaeth a'i ddiffiniad. Mewn cymhariaeth, mae absenoldeb cymharol o lenyddiaeth ynghylch sut y mae'r cysyniad yn cael ei ddeall, ei asesu a'i weithio o safbwynt ymarferol. Mae'r dystiolaeth empirig gyfyngedig hon yn aml yn llawn materion samplu gwael, neu ganolbwyntio ar boblogaethau penodol, sy'n golygu bod cyffredinol'r canfyddiadau wedi'i gyfyngu yn ei hanfod. Dibynnwyd ar hanesion ôl-weithredol hefyd, nad ydynt yn caniatáu ar gyfer rheoli newidynnau allanol na nodi perthynas achosol rhwng canlyniadau andwyol a dieithrio. Mae amrywiaeth rolau proffesiynol gwahanol o fewn lleoliadau ymarfer a llysoedd yn golygu bod angen cynnal ymchwil gydag amrywiaeth o grwpiau rhanddeiliad gwahanol (gan gynnwys y teuluoedd a'r plant). Yn ychwanegol at hyn, mae llawer o'r ymchwil hyd yma wedi canolbwyntio ar leoliadau daearyddol penodol, yn bennaf Gogledd America (yn benodol, yr UD)⁴. Mae amrywiadau diwylliannol o ran rolau, dulliau ac arfer yn codi heriau pellach o ran perthnasedd canfyddiadau yng Nghymru.

⁴ Mae strwythur a gweithrediad llysoedd, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn yr UD, ac i raddau llai Canada, yn dra gwahanol i'r rhai yn y DU. Ymyriadau/therapi a fandadwyd gan y llysoedd ar gyfer ymyriadau penodol (h.y. ymyriad a enwyd yn benodol) wedi'u cysylltu'n fwy cyffredin â systemau a ddefnyddiwyd yn yr UD na'r rhai yn y DU lle mae'r llysoedd yn gyffredinol yn cyfeirio at wasanaethau iechyd cyhoeddus sy'n gwneud penderfyniadau ar ymyriadau priodol a therapi, pwynt y dylid ei ystyried wrth ddarllen yr is-adran ar ymyriadau.

4.0 Adolygiad cyflym o dystiolaeth empirig ar ddieithrio plentyn oddi wrth riant

4.1 Diffiniad o ddieithrio plentyn oddi wrth riant

Nid oes diffiniad pendant o ddieithrio plentyn oddi wrth riant yn y llenyddiaeth ymchwil. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod aliniad y plentyn ag un rhiant dros y llall yn ganlyniad arferol o ddatblygiad plentyn, er y bydd ymlyniadau yn newid dros amser yn ôl anghenion y plentyn (Johnston, 2003). Ar gyfer plant hŷn, mae Erthygl 12 CCUHP yn cydnabod eu gallu datblygol i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, hyd yn oed os yw hyn yn gwrthbwyso dyfarniadau lles rhieni (gweler Adran 2.2). Gall aliniad rhiant neu ddieithrio plentyn oddi wrth riant hefyd fod yn adwaith arferol i rieni yn gwahanu. Fodd bynnag, mae i ba raddau mae hyn yn ffenomen fân, amser gyfyngedig neu'n fater mwy difrifol yn ddadleuol (Hands a Warshak, 2011). Mae dadleuon o'r fath hefyd yn amgylchynu'r cysyniad o PAS, a nodwyd yn benodol gan Gardner fel is-gategori dieithrio plentyn oddi wrth riant gyfeirio gan gyfeirio at y cyflwr meddylion a brofwyd gan y plentyn sydd wedi'u ddieithrio, yn sgil ei ddiffyg hygyrdded gwyddonol (Rueda, 2004).

Mae'n bwysig nodi nad yw'r DSM-V na'r ICD-10 yn nodi'n benodol dieithrio plentyn oddi wrth riant neu PAS. Mae'r ddau yn cynnwys diffiniadau eang o gam-drin seicolegol plant (DSM-V 995.53 ac ICD-10 T74.3) a allai gynnwys llawer o'r priodoleddau sy'n aml yn cael eu nodi fel rhai sy'n nodweddiadol o PAS ond nad ydynt yn ei nodi fel is-fath penodol. Mae'r ICD-10 hefyd yn cynnwys dosbarthiadau ychwanegol sy'n cyffwrdd ar rai o'r dimensiynau gwahanol a ddisgrifir gan eiriolwyr PAS, er enghraifft: Z62.1 Rhieni goramddiffynnol Z62.4 Esgeulustod emosiynol plentyn; Z62.8 Pwysau rhieni amhriodol a rhinweddau annormal eraill magwraeth. Nid oes unrhyw rai o'r dosbarthiadau hyn yn nodi PAS yn benodol ac mae'r enghreifftiau a roddir yn gyffredinol yn llawer ehangach na'r rhai a ddefnyddir yn llenyddiaeth ehangach PAS. Mae fersiwn Beta o'r ICD-11 sydd ar y gweill, yn cynnwys cynnig i gynnwys dieithrio plentyn oddi wrth riant o dan y grŵp ehangach o broblemau perthynas rhoddwr gofal-plentyn. Nid yw'n glir a fydd hyn yn cael ei gynnwys yn y fersiwn derfynol, ac nid yw'n glir sut y gallai hyn gael ei ddiffinio. Mae cynnwys dieithrio plentyn oddi wrth riant yn naill ai'r dosbarthiadau DSM neu'r ICD wedi bod yn ddadleuol, ac mae hyn yn parhau i fod yn wir (Bernet *et al.*, 2010; Bernet a Baker, 2013; Pepiton *et al.*, 2012).

Serch hynny, bu rhywfaint o gytundeb bod dieithrio plentyn oddi wrth riant yn cyfeirio at wrthod diangen y rhiant a ddieithriwyd a chynghrair â'r rhiant sy'n dieithrio, wedi'i nodweddu gan negyddoldeb eithafol y plentyn tuag at y rhiant a ddieithriwyd yn sgil gweithredoedd bwriadol neu

anfwriadol y rhiant sy'n dieithrio er mwyn effeithio'n andwyol ar y berthynas â'r rhiant a ddieithriwyd (Baker a Darnall, 2007, Baker a Darnall, 2006; Johnston, 2003). Yn ogystal, gall plentyn a ddieithriwyd ddangos ymddygiad sy'n gyson â cheisio plesio neu osgoi dial gan y rhiant sy'n dieithrio (Gomicide, Camargo a Fernandes, 2016). Yn wahanol i rieni'n ymddieithrio - lle ceir sail ar gyfer gwrthod rhiant fel esgeulustod, cam-drin, gadael neu drais domestig - mae dieithrio plentyn oddi wrth riant yn cyfeirio at ofn, casineb a gwrthod heb gyfiawnhad. Fodd bynnag, mae absenoldeb cymharol astudiaethau sy'n dangos dulliau i wahaniaethu dieithrio plentyn oddi wrth riant ac ymddieithrio, a arweiniodd Gomicide et al (2016) i argymhell bod dieithrio plentyn oddi wrth riant yn cael ei ystyried pan nad oes cymhelliant go iawn i'r plentyn bardduo'r rhiant a ddieithriwyd.

Mae llawer o'r deunydd darllen wedi ceisio nodi'r ymddygiad a'r strategaethau a ddefnyddir gan rieni sy'n dieithrio (Johnston, 2003; Baker a Darnall, 2006; Baker a Ben-Ami, 2011; Hands a Warshak, 2011; Baker, Burkhard ac Albertson-Kelly, 2012; Verrocchio a Baker, 2015; Bernet, 2016a). Awgrymwyd y canlynol,

There appear to be endless permutations and combinations of alienating behaviors. Looked at from this perspective, it is clear that parental alienation syndrome is more a goal or an outcome rather than a specific set of behaviors or actions on the part of the alienating parent (Baker and Darnall, 2006: 118)

Mae mabwysiadu bodolaeth set o ymddygiad neu weithredoedd yn negyddu honiad Gardner (2002) bod yn rhaid i'r plentyn ddangos y rhan fwyaf o'r wyth symptom a roddwyd ganddo. Ceir rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer gwahaniaeth Gardner rhwng dieithrio gan y rhiant a dieithrio gan y plentyn. Felly, canfu Sprujit et al (2005) bedwar prif elfen gyda dau'n canolbwyntio ar ymddygiad dieithrio gan y rhiant (1, 2) a dau'n seiliedig ar ddieithrio gan y plentyn (3, 4)

1. Gwaharddiad y rhiant dibreswyl yn seiliedig ar hawliadau gan y rhiant preswyl (e.e. 'lladd ar' y rhiant);
2. Y rhiant preswyl yn dieithrio'r rhiant dibreswyl (e.e. cyhuddiad ffug o gam-drin yn erbyn y rhiant dibreswyl)
3. Y plentyn yn delfrydu'r rhiant preswyl (e.e. mae ganddo honiadau cadarnhaol yn unig am y rhiant preswyl)
4. Y plentyn yn gwrthod y rhiant dibreswyl (e.e. nid oes gan y plentyn barch at y rhiant dibreswyl).

4.2 Nifer yr achosion o ddieithrio plentyn oddi wrth riant

Mae diffyg un diffiniad yn golygu mai tasg gymhleth yw penderfynu ar nifer yr achosion o ddieithrio plentyn oddi wrth riant. Mae amrywiaeth ymddygiad cysylltiedig a chymhlethdod yr asesiad yn golygu mai prin yw'r data dibynadwy os o gwbl o fewn llenyddiaeth bresennol (Saini, Johnston, Fidler a Bala, 2016; Lavadera, Ferracuti a Togliatti, 2012; Johnston, 2003). Cymhlethir hyn ymhellach gan ddemograffeg sy'n newid yn y boblogaeth ehangach; yn benodol, mae cyfraddau cynyddol o gyd-fyw, cynyddu cyfraddau priodasau yn chwalu, a'r cynnydd o ran teuluoedd 'cyfunol'. Gall y rhain arwain at achosion lle gallai dieithrio ddigwydd (cynnydd posibl mewn amllder) ond ni fyddai hyn o reidrwydd yn adlewyrchu cynnydd cymesur.

4.3 Penderfynyddion dieithrio plentyn oddi wrth riant

Mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod penderfynyddion lluosog o ddieithrio rhieni gan gynnwys ymddygiad a nodweddion y rhiant sy'n dieithrio, y rhiant a ddieithriwyd a'r plentyn (Saini, Johnston, Fidler a Bala, 2016; Hands a Warshak, 2011; Johnston, Walters ac Oleson, 2005; Johnston, 2003). Bydd yr adran hon yn trafod pob parti yn ei dro.

4.3.1 Y rhiant sy'n dieithrio

Er yr awgrymwyd bod mamau'n fwy tebygol o ddieithrio (Johnston, 2003; Vassilou a Cartwright, 2001), ymddengys fod dieithrio plentyn oddi wrth riant yn adlewyrchu mwy ar drefniadau preswylfa plentyn, gyda'r rhiant preswyl – waeth beth fo'i rywedd - yn fwy tebygol o ddieithrio'r plentyn (Beebe a Sailor, 2017; Bala, Hunt a McCarney, 2010). Ni chafwyd unrhyw wahaniaethau yn y nifer o strategaethau dieithrio gan famau sy'n dieithrio a thadau sy'n dieithrio (Baker a Darnall, 2006). Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ymchwil yn awgrymu bod gwahaniaethau rhwng y rhywiau yn y strategaethau dieithrio a ddefnyddir, er enghraifft mae mamau sy'n dieithrio yn fwy tebygol o ddifrio tadau i'r plentyn ac mae tadau sy'n dieithrio yn fwy tebygol o annog y plentyn i herfeiddio tuag at y fam (Balmer, Matthewson a Haines, 2017).

Mae rhieni sy'n dieithrio wedi'u disgrifio fel rhai a chanddynt anafiadau narsisaidd, gan feio'r rhiant a ddieithriwyd am eu dioddefaint a'u cywilydd (Godbout a Parent, 2012; Baker 2006). Mae canfyddiadau'n awgrymu bod rhieni'n cam-drin eu plant yn seicolegol wrth iddynt geisio ffurfio cynghrair batholegol gyda'r plentyn, diffyg empathi ar gyfer y plentyn ac anallu i wahanu anghenion y plentyn oddi wrth eu hanghenion eu hunain (Lavadera, Ferracuti a Togliatti, 2012; Baker a Ben-Ami, 2011; Baker a Darnall, 2006; Johnston, Walters ac Oleson, 2005). Felly, bydd rhieni sy'n dieithrio yn trin meddyliau a theimladau'r plentyn, gan gynnig

cynhesrwydd iddynt ar yr amod eu bod yn cael teyrngarwch digwestiwn yn ddychwelyd (Gomide et al, 2016; Lavadera, Ferracuti a Togliatti, 2012). Mewn rhai achosion, gall hyn gynnwys rhiantu'r plentyn, naill ai wrth i'r plentyn ddod yn gyfrinachwr neu y dibynnir arno am gymorth emosiynol (Godbout a Parent, 2012).

4.3.2 Y rhiant sy'n cael ei ddieithrio

Yn ôl astudiaeth Johnston (2003) o sgoriau clinigwyr, mae diffygion rhieni a ddieithriwyd o ran gallu rhianta yn chwarae rôl mewn gwrthod rhiant, er ei bod yn aneglur a yw diffygion o'r fath yn sgil rhianta gwael neu'r diffyg pŵer a brofir yn sgil cynghrair y rhiant-plentyn sy'n dieithrio yn ei erbyn. Gall dieithrio plentyn oddi wrth riant gyfyngu ar berthynas y rhiant a ddieithriwyd gyda'r plentyn yn creu triongli lle mae'r plentyn yn cael ei dynnu i mewn i anghytgord rhieni gan ffurfio cynghrair rhiant-plentyn gan arwain at golli'r rôl rhiant ar gyfer y rhiant a ddieithriwyd, a symudiad mewn grym tuag at y sawl sy'n dieithrio a'r plentyn (Whitcombe, 2017; Baker a Eichler, 2016; Godbout a Parent, 2012; Avitia, 2011; Vassiliou a Cartwright, 2001). O ganlyniad, gall rhieni a ddieithriwyd ochel rhag peri gofid, cythruddo neu ddisgyblu'r plentyn rhag ofn y byddant yn gwrthod cyswllt pellach.

Nid oedd presenoldeb dieithrio plentyn oddi wrth riant yn ymddangos yn gysylltiedig â gwrthdaro priodasol cyn gwahanu ond roedd yn gysylltiedig â dirywio cyffredinol o ran cyfathrebu rhwng rhieni sydd wedi gwahanu dros amser. Mae sawl astudiaeth yn awgrymu bod dieithrio plentyn oddi wrth riant yn gysylltiedig â rhieni sy'n rhannu gwarchodaeth, neu warchodaeth ar y cyd (Whitcombe, 2017; Avitia, 2011) a lle mae rhieni a ddieithriwyd yn canfod bod rhieni sy'n dieithrio yn atal neu'n tarfu cyswllt yn sgil casineb, dicter neu ddial. Yn ogystal, cafwyd bod aelodau agos o'r teulu wedi ymddwyn mewn modd sy'n dieithrio gan bardduo'r rhiant a ddieithriwyd (Vassiliou a Cartwright, 2001).

Mae canfyddiadau ymchwil wedi dangos bod rhieni a ddieithriwyd yn profi rhwystredigaeth, ofn, straen, dicter a diymadferthedd (Whitcombe, 2017; Avitia, 2011; Baker a Darnall, 2006; Vassiliou a Cartwright, 2001). At hynny, mae rhieni a ddieithriwyd yn profi costau emosiynol ac ariannol negyddol (Vassiliou a Cartwright, 2001; Balmer, Matthewson a Haines, 2017). O ganlyniad, gall rhieni a ddieithriwyd fabwysiadu safbwynt goddefol neu encilio, sy'n gallu achosi dieithrio am ei fod yn atgyfnerthu negeseuon negyddol i'r plentyn nad oedd y rhiant a ddieithriwyd erioed wedi eu caru neu roedd yn rhiant gwael (Balmer, Matthewson a Haines, 2017; Godbout a Parent, 2012; Hands a Warshak, 2011; Baker, 2006).

4.3.3 Y plentyn

Mae nodweddion y plentyn yn ystyriaeth bwysig mewn achosion o ddieithrio plentyn oddi wrth riant oherwydd nid yw'r holl blant wedi dieithrio, ac i'r rhai sydd yn, ceir amrywiadau o ran difrifoldeb y dieithrio (Hands a Warshak, 2011; Baker a Darnall, 2006). Gan ddilyn Gardner (2002), gall dieithrio amrywio o ysgafn, nad oes canfyddiad ei fod yn broblem, i gymedrol a difrifol;

In mild cases the child is taught to disrespect, disagree with, and even act out antagonistically against the targeted parent. As the disorder progresses from mild to moderate to severe, this antagonism becomes converted and expanded into a campaign of denigration (Gardner, 2002:96)

Mae amrywiant hefyd yn digwydd wrth fewnoli dieithrio, lle mae rhai plant sy'n profi emosiynau croes dicter a drwgdeimlad ochr yn ochr â theimladau o gariad, tristwch ac euogrwydd am eu gweithredoedd tuag at y rhiant a ddieithriwyd (Godbout a Parent, 2012; Baker, 2006).

Ymddengys fod rhyw ac oed yn bwysig, gyda chyfranogiad mwy tebygol o ferched na bechgyn (Balmer, Matthewson a Haines, 2017; Baker a Darnall, 2006), a phlant hŷn a phobl ifanc sydd â'r gallu gwybyddol ac emosiynol i gyfranogi mewn dynameg teulu onad y mae eu meddwl yn parhau'n hydrin (Lavadera et al, 2012; Baker a Darnall, 2006; Johnston, 2006). Mae plant a ddieithriwyd yn tueddu i ddangos cynghreiriau sy'n amhriodol i'w hoedran gyda'r rhiant a ddieithriwyd (Balmer, Matthewson a Haines, 2017), gan arddangos polareiddio eithriadol lle mae canfyddiad o'r rhiant sy'n dieithrio wedi'i ddelfrydu ac mae'r rhiant a ddieithriwyd wedi'i ddiffrïo (Baker, Burkhard a Albertson-Kelly, 2012). At hynny, gall plant a ddieithriwyd weithredu ar ran rhieni a ddieithriwyd a gwrthod unrhyw fath o ymyriad wedi'i anelu at fynd i'r afael â dieithrio plentyn oddi wrth riant (Baker, Burkhard ac Albertson-Kelly, 2012). Mae awgrym bod gan blant a ddieithriwyd anawsterau hunaniaeth, gyda rhai'n datblygu ymdeimlad ffug o'u hunain fel strategaeth ymdopi ar gyfer y dieithrio, sy'n eu galluogi i gyflwyno fel plant sydd wedi addasu'n dda (Lavadera et al, 2012). At hynny, o gymharu â grŵp rheoli, cafwyd bod gan blant a ddieithriwyd duedd tuag at ymddygiad ystrywgar, parch isel tuag at awdurdod, teimladau o anawsterau, gwrthwynebol, ac affeithiolrwydd ansicr, anawsterau perthynas a chanfyddiad wedi ei gamffurfio o ddynameg teulu (Lavadera et al, 2012; Johnston, 2003).

4.4 Effeithiau tymor hir ar y plentyn

Er bod yr ymchwil yn cynnig amrywiaeth o effeithiau hirdymor negyddol dieithrio plentyn oddi wrth riant, mae'r astudiaethau a adolygwyd yn seiliedig ar adroddiad ôl-weithredol nad ydynt yn galluogi sefydlu

perthynas achosol rhwng canlyniadau anffafriol a dieithrio. Yn hynny o beth, dylid trin y crynodeb canlynol o ganlyniadau â gofal.

Mae cyfres Baker o astudiaethau wedi canfod y gall dieithrio arwain at hunan-barch is yn ystod oedolaeth (Verrocchio a Baker, 2015; Ben-Ami a Baker, 2012; Baker a Ben-Ami, 2011; Baker, 2005) a symptomau iselder lle awgrymwyd bod y profiad byw o ymdopi â gwrthod ymddangosiadol y rhiant a ddieithriwyd ac anallu i geisio cysur gan y rhiant sy'n dieithrio ynghylch y golled hon wedi'i gysylltu ag iselder yn ystod oedolaeth (Ben-Ami a Baker, 2012; Baker a Ben-Ami, 2011; Baker, 2005). Awgrymwyd hefyd efallai fod gan blant a ddieithriwyd lefelau is o hunanddigonedd yn ystod oedolaeth, lle damcaniaethwyd y gall y gynghrair gref rhwng y plentyn a'r rhiant sy'n dieithrio gael effaith andwyol ar annibyniaeth y plentyn yn ddiweddarach (Ben-Ami a Baker, 2012; Godbout a Parent, 2012; a Johnston, Walters ac Olesen, 2005). Mae natur ystrywgar y gynghrair hon wedi'i chysylltu hefyd ag anawsterau'n ymwneud ag ymlyniadau a pherthnasoedd, lle gall yr oedolyn a ddieithriwyd naill ai geisio cymeradwyaeth cysyniad gan bartneriaid neu ddangos diffyg ymddiriedaeth (Beebe a Sailor, 2017; Balmer, Matthewson a Haines, 2017; Ben-Ami a Baker, 2012). Fodd bynnag, ceir rhai canfyddiadau ymchwil sy'n awgrymu y gall plant hŷn geisio ailuno, weithiau'n dilyn digwyddiad allweddol fel profi ymddygiad negyddol y rhiant sy'n dieithrio (Godbout a Parent, 2012). At hynny, awgrymwyd y gall ailuno o'r fath arwain at effaith andwyol yn ddiweddarach (Moné a Biringen, 2006) lle mae'r plentyn yn gwrthod y rhiant sy'n dieithrio ac yn ailsefydlu perthynas â'r rhiant a ddieithriwyd.

4.5 Ymchwil sy'n ymateb i arfer

O ran ymwybyddiaeth ymarferwyr o ddieithrio plentyn oddi wrth riant, cynhaliodd Bow *et al.* (2009) arolwg o weithwyr iechyd meddwl a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn yr UD ($n=448$). Roedd y samplu ar gyfer yr astudiaeth hon wedi'i wyro tuag at ymarferwyr profiadol a oedd yn aml yn gweithio ar achosion preifat. Nodwyd cyfranogwyr drwy chwilio ar y rhynggrwyd, gan arwain at bryderon ynghylch pa mor gynrychioliadol oedd y sampl. Nododd y canlyniadau nad oedd mwyafrif yr ymarferwyr wedi cael eu haddysgu am ddieithrio plentyn oddi wrth riant yn ystod eu hyfforddiant cychwynnol neu ddilynol, oherwydd nodwyd bod 50% wedi dysgu am y cysyniad yn ystod eu hymarfer. Er bod y cysyniad yn cael ei dderbyn yn gyffredinol, nododd mwyafrif yr ymatebwyr (71%) eu bod yn ymwybodol bod y term yn ddadleuol. Yn ychwanegol at hyn, nid oedd 75% yn teimlo bod dieithrio plentyn oddi wrth riant yn syndrom, oherwydd bod y sail dystiolaeth ar hyn yn ddiffygiol.

Er gwaethaf hyn, pan ofynnwyd i weithwyr proffesiynol nodi eu hyder (graddfa Likert o 1 i 7 – gydag 1 yn isel a 7 yn uchel) mewn gwahanol

ffactorau o Raddfa Dieithrio Plentyn oddi wrth Riant Gardner (2004), nodwyd gwerthoedd yn amrywio o 4.01 i 5.34 (gweler tabl 3 Bow *et al.*). Er bod atwrneiod a barnwyr yn gyson yn fwy amheus o'r ffactorau na gwerthuswyr a hwyluswyr llys, roedd y proffesiynau gwahanol yn gyson yn eu cytundeb eang ynghylch pa ffactorau oedd bwysicaf (h.y. er bod y sgorau cymedrig yn amrywio yn ôl proffesiwn, roedd yr un ffactorau yn gyffredinol mewn safle uwch neu is ar draws proffesiynau). Gofynnwyd i werthuswyr dalfa plentyn⁵ am y dulliau asesu roeddent yn eu ffafrio ar gyfer dieithrio rhieni; nodwyd bod cyfweiliadau ac arsylwadau'n well na phrofi plant a/neu rieni. Fodd bynnag, gwnaeth y gwahaniaethau hyn chwalu o ran ymyriadau arfaethedig, a therapi ar gyfer y rhieni a'r plant oedd yr opsiwn a ffefrir.

Ymddengys nad oes sail dystiolaethol gredadwy ar gyfer defnyddio graddfeydd a phroffion i fesur dieithrio plentyn oddi wrth riant yn ymarferol. Yn wir, ymddengys fod amrywiaeth o ddulliau/mesurau posibl: Gwnaeth Bernet (2016a; 2016b) archwilio'r Holiadur Derbyn-Gwrthod i Rien (PARQ); Mae Baker *et al.*, (2012) wedi datblygu Holiadur Dieithrio Baker (BAQ); ac mae Gomide (2016) a Lavadera (2012), ymhlith eraill, wedi edrych ar Raddfa Dieithrio Rhieni Gardner (2004). Mae'r fethodoleg a strategaethau samplu a ddefnyddir yn amrywio'n sylweddol, ac yn aml ymddengys nad ydynt yn ddigon cadarn i arwain at ganlyniadau ystyrlon.

Mae'r holl astudiaethau a nodwyd hyd yma'n ymwneud ag ymchwil y tu allan i'r DU. Mae astudiaeth Trinder *et al* (2013) o geisiadau gorfodi yn Lloegr yn enghraifft brin o ymchwil ddomestig. Er bod yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar ganlyniadau llys, defnyddiodd yr astudiaeth gofnodion Cafcass (Lloegr). Nododd y canfyddiadau o'r astudiaeth fod gelyniaeth ddifaddeuant yn ffenomen brin:

Contrary to public perceptions and our own expectations, very few of the cases involved implacably hostile parents who unreasonably refused all contact. Instead the majority of cases involved two parents involved in mutual conflict over their children, followed by cases where there were significant safeguarding concerns that were impacting upon contact and by cases where older children wished to stop or reduce contact.

(Trinder *et al.*, 2013:36)

Nodwyd bod achosion o elyniaeth ddifaddeuant yn cymryd mwy o amser ac yn fwy costus, gyda'r llys yn gyffredinol yn defnyddio dull cosbol gyda

⁵ Arbenigwr iechyd meddwl a benodir gan y llys sy'n gwerthuso'r teulu a'r plentyn i benderfynu beth sydd er budd pennaf y plentyn. Mae rôl, profiad, cymwysterau a bodolaeth y gwerthuswyr hyn yn amrywio rhwng taleithiau'r UD.

gorchmynion gorfodi a throsglwyddo preswylfa yn digwydd ar lefel anghymesur. Yn wir, gwnaed gorchymyn newydd ym mhob achos o elyniaeth ddifaddeuant. Fodd bynnag, mae nifer isel yr achosion o elyniaeth ddifaddeuant yn y sampl (nodwyd cyfanswm o naw achos, 4% o'r sampl, mewn sampl o 212) yn golygu y dylid bod yn ofalus wrth gyffredinolli o'u canfyddiadau.

4.6 Ymyriadau a thriniaeth

Roedd yn ymddangos bod ymyriadau a thriniaethau ar gyfer dieithrio yn amrywio o ran ffurf ac arddull, ond thema gyffredin yw diffyg cyson o werthuso cadarn. Nododd Templer *et al.* (2017), yn eu hadolygiad systematig o ymatebion i ddieithrio plentyn fod diffyg eglurder ynghylch mesurau canlyniadau, methiant rheolaidd i ddefnyddio grwpiau rheoli a dim ymgais i gyfateb achosion. Er bod yr adolygiad hwn wedi nodi 10 astudiaeth, roedd y rhain ar raddfa fach yn bennaf ac yn dibynnu ar fesurau ansoddol. Dim ond un astudiaeth, Toren *et al.* (2013), a geisiodd ddefnyddio grŵp rheoli wrth ddylunio astudiaeth led-arbrofol. Roedd dull yr adolygiad yn eang ac nid ymddengys fod unrhyw ymgais i ddefnyddio meini prawf arfarnu cadarn fel y gellid disgwyl mewn treialon iechyd y cyhoedd, hyd yn oed y rhai a ddefnyddir ar gyfer datblygu cynnar. Mae llawer o amheuaeth a fyddai unrhyw rai o'r astudiaethau a nodwyd gan Templer *et al.*, neu gan yr adolygiad hwn, yn ddigon cadarn wrth arfarnu yn erbyn rhestrau gwirio'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE, 2012),⁶ neu feini prawf tebyg.

Roedd yr ymyriadau'n aml yn rhai bach o ran maint; nid oedd dim o'r rhai a nodwyd yn yr astudiaeth hon ag amledd sy'n uwch na 100. Yn wir, roedd llawer yn aml yn is na 50. Roedd dulliau samplu yn aml yn seiliedig ar ddull cyfleustra gydag achosion yn cael eu nodi gan ymchwilyr o'u harfer eu hunain, neu drwy recriwtio gyda chydweithwyr. Casglwyd data dilynol ond yn anaml roedd hyn dros flwyddyn neu ddau. Johnston a Goldman (2010) oedd yr eithriad yma, gan ddefnyddio data dilynol o astudiaeth flaenorol a'u cleientiaid eu hunain o'r deng mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, roedd eu canlyniadau (fel y nodwyd eu hunain) yn rhai rhagarweiniol ac yn adeiladu damcaniaeth. Mae'n ymddangos nad yw effaith hirdymor ymyriadau'n cael ei mesur yn ddigonol.

Roedd ymyriadau'n tueddu i ganolbwyntio ar ddulliau seico-addysgol gan weithio gyda phlant a rhieni sydd wedi ymddieithrio. Nid oedd yr hyn a olygai hyn bob amser wedi'i fynegi'n glir, ac roedd llawer o'r drafodaeth am yr ymyriadau'n aml yn canolbwyntio ar ddisgrifiadau o gamau a nodweddion y dull ar ffurf trosolwg cyffredinol. Roedd rhai ar ffurf encilfeydd (Sullivan, 2010). Ystyriodd eraill sesiynau therapi dwys (Toren,

⁶ Yn benodol, Atodiadau F a H NICE (2012)

et al., 2013) ac roedd rhai'n defnyddio cyfuniad, gyda phoblogaethau gwahanol yn cael gwahanol fathau o gymorth (h.y. y rhiant a oedd yn dieithrio yn cael therapi o bell neu wyneb yn wyneb tra roedd y plentyn a'r rhiant a ddieithriwyd mewn encilfa) (Reay, 2015). Rhoddir crynodeb o rai o'r ymyriadau a nodwyd yn y tabl isod:

Tabl 1.0 – Crynodeb o ymyriadau a damcaniaethau dieithrio plentyn oddi wrth riant⁷

<i>Enw a chyfeirnod</i>	<i>Crynodeb o'r ymyriad/therapi</i>
Holiadur Dieithrio Baker (BAQ) (Baker <i>et al.</i> 2012)	Holiadur 28-pwynt ynglŷn â meddyliau a theimladau plentyn am riant. Mae'r holiadur yn seiliedig ar bedair egwyddor allweddol: 1. A oes tystiolaeth o berthynas gadarnhaol cyn yr ysgariad rhwng y plentyn a'r rhiant sydd wedi'i wrthod bellach? 2. A oes diffyg canfyddiad a brofwyd o gam-drin neu wybodaeth gredadwy arall am gam-drin neu ymddygiad esgeulus y rhiant sydd wedi'i wrthod bellach? 3. A oes tystiolaeth bod y rhiant a ffefrir wedi defnyddio llawer o'r 17 o brif strategaethau dieithrio rhiant fel y'u nodwyd yn Baker a Fine (2008)? 4. A yw'r plentyn yn dangos nodweddion ymddygiadol neu'n nodi syniadau a theimladau sy'n nodweddiadol o ddieithrio (e.e., sgôr o 7 neu'n uwch ar y BAQ)?
Pontydd Teulu (Warshak, 2010)	Ymyriad seiliedig ar weithdy ar gyfer teuluoedd (nid grwpiau o deuluoedd). Mae'r ymyriad wedi'i gynllunio ar gyfer: (i) plant y mae eu gwrthodiad o riant, neu berthynas, yn afrealistig; (ii) mae'r plentyn yn gwrthod cyswllt â'r rhiant; (iii) mae angen cymorth ar y plentyn i addasu i fyw gyda rhiant a ddieithriwyd o ganlyniad i orchymyn llys a wnaed o blaid y rhiant hwn. Mae'r gweithdy'n seiliedig ar ddeg egwyddor yn amrywio o ffocws ar ddyfodol ac addysg, hyd at gydnabod natur ffaeledig dynol a rheoli gwrthdaro. Arweinir gweithdai gan seicolegwyr ac maent yn para am bedwar diwrnod. Nodweddir bob dydd o'r gweithdy gan gyfnod o waith: (i) cysyniadau a gwybodaeth sylfaenol; (ii) cysyniadau sy'n gysylltiedig ag ysgaru ac integreiddio dysgu; (iii) cymhwyso dysgu; a, (iv) caffael ac ymarfer sgiliau datrys gwrthdaro a sgiliau cyfathrebu.
Myfyrdodau Teuluol (Reay, 2015)	Wedi'u cynllunio ar gyfer gweithio gyda phlant 8-18 oed. Mae plant yn mynd i gyfleuster encilfa i ffwrdd oddi wrth y ddau riant. Yna gwneir gwaith seico-addysgol gyda'r plentyn cyn bod y rhiant a ddieithriwyd yn ymuno â'r plentyn yn yr encilfa lle mae'r ddau'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a rhagor o waith seico-

⁷ Canfu Templer *et al.*, (2017) amrywiaeth ehangach o ymyriadau/therapiau na'r rhai yn ein hadolygiad. Mae'n debyg bod hyn yn sgil gwahanol feini prawf a chanolbwyntiau. Yn benodol, canolbwyntiodd yr adolygiad hwn ar lenyddiaeth a gyhoeddwyd ers y flwyddyn 2000.

	addysgol. Yna mae'r plentyn a'r rhiant a ddieithriwyd yn rhannu'r un ardal fyw er mwyn adeiladu ar eu perthynas. Yn ogystal, cynhelir therapi gyda'r rhiant sy'n dieithrio mewn lleoliad sy'n agos at eu cartref neu drwy therapi o bell. Mae'r cam terfynol yn cynnwys ffurfio cynllun hirdymor ar gyfer hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol.
Triniaeth Grŵp (un ar bymtheg o sesiynau) (Toren <i>et al.</i> , 2013)	Roedd plant a'u teuluoedd rhwng 6 ac 16 oed a chanddynt 'ddiagnosis' o ddieithrio plentyn oddi wrth riant yn gymwys. Sesiynau therapi grŵp wythnosol a gynhaliwyd am un wythnos ar bymtheg gyda dau grŵp: (i) plant (maint y grŵp rhwng chwech ac wyth); a, (ii) oedolion (maint grwpiau rhwng 12-14). Roedd dau therapydd gan y ddau grŵp. Cynhaliwyd dull dynamig gan ganolbwyntio ar fodiwlau ymddygiad gwybyddol, sgiliau rhyngbersonol a strategaethau ymdopi. Mae'r grŵp rhieni yn canolbwyntio ar wahanu, rhianta ar y cyd ac amrywiaeth o ffactorau cysylltiedig. Mae'r grŵp plant yn canolbwyntio ar wahanu, ysgaru, gwaith stori bywyd 'newydd' a mynegi teimladau.
Gwersyll teulu goresgyn rhwystrau (Sullivan <i>et al.</i> , 2010)	Gwersyll teulu pum diwrnod, pedair noson sy'n cynnwys y ddau riant a'r plant. Mae'r gwersyll wedi'i gynllunio i ddarparu therapi dwys i deuluoedd gwrthdaro uchel drwy: (i) profiadau a gweithgareddau seiliedig ar wersyll; (ii) seicolegydd clinigol pro-bono sy'n darparu ymyriadau clinigol a chefnogaeth; (iii) sesiynau cyd-rianta; a (iv) ymyriadau sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo ailgysylltu rhwng y rhiant a ddieithriwyd a'r plentyn/plant.

Nodwyd bod llawer o'r ymyriadau wedi digwydd o dan gyfarwyddyd llys; roedd hyn wedi'i nodi'n benodol fel maen prawf ar gyfer mynediad yn (Baker, *et al.*, 2012; Reay, 2015; Toren *et al.*, 2013), neu nodwyd ei fod yn ffactor cyffredin mewn eraill (Sullivan *et al.*, 2010; Warshak, 2010). Gwnaeth Reay (2015) gysylltu'r sail resymegol yn glir â'r angen i orfodi'r rhiant sy'n dieithrio. Fodd bynnag, nid yw'r angen hwn am orfodaeth i wahanu oddi wrth y rhiant sy'n dieithrio o reidrwydd yn arwain at y rhiant a ddieithriwyd yn bod yn agored i gymorth a therapi. Dangosodd ymchwil ddiweddar gan Balmer *et al.*, (2017) fod rhieni targed yn canfod bod eu sefyllfa yn gymedrol o fewn eu rheolaeth eu hunain, ond ei bod yn annhebygol o fod yn un y gall unrhyw un arall ei rheoli, gan awgrymu y bydd help a chymorth allanol yn cael eu gwrthod.

Gwnaeth un astudiaeth, Darnall a Steinberg (2008), drafod ailuno digymell a'r dulliau ysgogol sydd wrth wraidd hyn. Edrychodd yr astudiaeth yn bennaf ar y cymhelliant i blant sy'n chwilio am rieni a ddieithriwyd a defnyddiodd fframwaith damcaniaethol a ddyfeiswyd gan

Zartman ac Aurik (1991) i grwpio'r plant. Roedd y sampl a ddefnyddiwyd yma drwy hunanddewis yn bennaf, gan arwain at bryderon am ragfarn dethol a chymhelliant ar gyfer cymryd rhan. Wedi dweud hyn, defnyddiwyd meini prawf pellach ar ffurf Graddfa Dieithrio Plentyn oddi wrth Riant Gardner (fel y disgrifiwyd gan Kelly a Johnson, 2001). Mae natur ar raddfa fach natur yr ymchwil, ac ansicrwydd am ei diben yn arwain at gwestiynau am sut y gall hyn fod yn bwysig ar gyfer ymyriadau.

I grynhoi, prin, os o gwbl, yw'r gwerthusiadau o ansawdd uchel o ymyriadau i blant a theuluoedd mewn perthynas â dieithrio plentyn oddi wrth riant. Mae adolygiad Templer *et al.* (2017) yn darparu crynodeb defnyddiol o'r dulliau presennol o ymyrryd mewn achosion o ddieithrio. Fodd bynnag, awgrymir y dylid bod yn ofalus wrth ddod i ormod o gasgliadau o'u hargymhellion/canfyddiadau. Dylid bod wedi defnyddio meini prawf mwy llym ar gyfer arfarnu ansawdd astudiaethau ac mae'n debygol na fyddai unrhyw rai o'r astudiaethau a nodwyd yn gallu gwrthsefyll craffu cadarn gan ddulliau arfarnu sefydledig NICE (2012), a dulliau arfarnu cyfwerth. Mae'r diffyg cofnodi data meintiol clir a ddefnyddir wrth werthuso'r ymyriadau hyn, ynghyd â graddfa fach yr ymyriadau, yn gwneud unrhyw gymhariaeth a metaddadansoddi yn anymarferol. Yn gryno, ymddengys fod ymyriad a thriniaeth yn y camau ffurfiannol o ran datblygu; nid ydym wedi nodi unrhyw dystiolaeth gadarn ar gyfer ymyriadau a thriniaethau a ddilyswyd o amgylch dieithrio plentyn oddi wrth riant.

4.7 Casgliad

Mae prinder ymchwil empirig i ddieithrio plentyn oddi wrth riant, ac mae'r hyn sy'n bodoli'n cael ei ddominyddu gan ychydig o awduron allweddol. Felly, nid oes diffiniad pendant o ddieithrio plentyn oddi wrth riant yn y llenyddiaeth ymchwil. Yn gyffredinol, derbyniwyd bod dieithrio plentyn oddi wrth riant yn cyfeirio at wrthod diangen y rhiant di-warchodol a chynghrair â'r rhiant sy'n dieithrio a nodweddir gan negyddoldeb eithafol y plentyn tuag at y rhiant a ddieithriwyd yn sgil gweithredoedd bwriadol neu anfwriadol y rhiant sy'n dieithrio fel ei fod yn effeithio'n andwyol ar y berthynas â'r rhiant a ddieithriwyd. Eto, mae penderfynu gwrthod diangen yn achosi problemau yn sgil ei benderfynyddion lluosog, gan gynnwys ymddygiad a nodweddion y rhiant sy'n dieithrio, y rhiant a ddieithriwyd a'r plentyn. Gwaethygir hyn gan oedran y plentyn a'i gam datblygu yn ogystal â'i nodweddion personoliaeth, a'r graddau y mae'r plentyn yn mewnnoli canlyniadau negyddol triongli. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd sefydlu nifer yr achosion ac effeithiau hirdymor dieithrio plentyn oddi wrth riant.

Heb ddiffiniad clir a dderbynnir na chytundeb ar nifer yr achosion, nid yw'n syndod bod amrywioldeb o ran graddau'r wybodaeth a derbyn dieithrio plentyn oddi wrth riant ar draws y proffesiynau cyfreithiol ac iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae'r ymchwil wedi darparu rhywfaint o gytundeb cyffredinol o ran yr ymddygiad a'r strategaethau a ddefnyddir mewn achosion o ddieithrio plentyn oddi wrth riant. Mae hyn wedi arwain at ymddangosiad nifer o fesurau a phrofion ar gyfer dieithrwch rhieni, er bod angen rhagor o ymchwil cyn y gellir sicrhau dibynadwyedd a dilysrwydd. Mae llawer o'r ymyriadau sy'n dod i'r amlwg yn canolbwyntio ar ddulliau seico-addysgol gan weithio gyda phlant a rhieni sydd wedi'i ymddieithrio, ond mae angen gwerthuso mwy cadarn i benderfynu ar eu heffeithiolrwydd.

5.0 Adolygiad o gyfraith achosion

Mae'r adran hon yn dadansoddi dieithrio plentyn oddi wrth riant fel term ac fel cysyniad pan fydd yn ymddangos mewn cyfraith achosion. Mae'r adolygiad yn dechrau gyda'r achosion Llys Apêl diweddar mwyaf perthnasol. Cafodd y rhain eu hadrodd rhwng 2013 a 2018. Nodir achosion perthnasol eraill (a adroddwyd ers 2000) mewn dwy adran: lle honnwyd bod dieithrio plentyn oddi wrth riant ond na chanfuwyd hynny gan y llys ac, yn ail, lle nodwyd dieithrio plentyn oddi wrth riant/gelyniaeth ddifaddeuant gan y llys a sut yr aethpwyd i'r afael â hyn. Cynhwysir disgrifiadau pellach o ffeithiau, materion a chanfyddiadau'r achosion unigol er mwyn cyfeirio atynt yn y tabl yn Atodiad A.

5.1 Achosion Llys Apêl diweddar

Re A (A Child) [2013] EWCA Civ 1104: Mae'r dyfarniad hwn yn ymwneud â gelyniaeth ddifaddeuant (ni chrybwyllir 'dieithrio'). Dyfynnodd McFarlane LJ y gyfraith achosion awdurdodol fel a ganlyn: Lle ceir dadl gyswllt anhydrin, dylai'r llys fod yn gyndyn iawn i ganiatáu i elyniaeth ddifaddeuant un rhiant i'w rwystro rhag gwneud gorchymyn cyswllt lle bydd ei angen er lles y plentyn fel arall (*Re J (A Minor) (Contact)* [1994] 1 FLR 729). Mewn achos o'r fath, dylid gwrthod cyswllt dim ond pan fydd y llys yn fodlon nad oes perygl difrifol o niwed pe byddai cyswllt yn cael ei orchymyn (*Re D (Contact: Reasons for Refusal)* [1997] 2 FLR 48).

Yn *Re J*, roedd Balcombe LJ wedi nodi bod dwy egwyddor: mai hawl y plentyn oedd cael cyswllt gyda'r rhiant nad oedd yn byw gydag ef, a bod rhesymau cryf iawn yn ofynnol er mwyn gwrthod yr hawl hon i'r plentyn, wedi'i hen sefydlu. Roedd rhesymau polisi cryf dros ddweud na ddylid caniatáu i riant ystyfnig lesteirio'r hyn roedd y llys yn ystyried yr oedd ei angen ar gyfer lles y plentyn. Yn *Re D*, roedd gwrthodiad y fam breswyl i gytuno i gyswllt wedi ei gyfiawnhau, oherwydd bod ganddi ofn gwirioneddol o drais yn ei herbyn hi a'r plentyn.

Yn y ddau achos hyn o'r 1990au,⁸ mae McFarlane LJ yn egluro, roedd y Llys Apêl wedi cadarnhau canlyniad 'dim cyswllt', gan olygu bod sylwadau'r barnwr yn sylwadau obiter (nad oeddent yn gyfrwymol ar lys mewn achosion dilynol). Fodd bynnag, roedd y ffaith iddo eu dyfynnu gyda chymeradwyaeth yn 2013 yn cadarnhau eu dylanwad hirsefydlog:

- bod gan blant yr hawl i gael cyswllt
- mae rhesymau cryf yn ofynnol er mwyn gwrthod yr hawl hon

⁸ Penderfynwyd cyn 2000, felly cyn y cyfnod a chwiliwyd.

- mae polisi yn mynnu na ddylai rhiant herio penderfyniad llys ar les plentyn
- pan fydd canfyddiad barnwrol o ofn a thrais, mae'n bosibl y bydd yn dilyn mai'r penderfyniad lles fydd na fydd cyswllt.

Nododd Ei Arglwyddiaeth hefyd fod Balcombe LJ wedi cydnabod yn *Re J*, y gallai rhoi'r brif ystyriaeth i les y plentyn (o dan adran 1 o Ddeddf Plant 1989), mewn rhai achosion, arwain at ganlyniad a welir fel 'anghyfiawnder' o safbwynt y rhiant sydd wedi ei eithrio.

Mae'n bosibl gweld enghraifft o anghyfiawnder canfyddedig o'r fath mewn achos mwy diweddar, **Re A [2015] EWCA Civ 969**, lle nad oedd canfyddiadau andwyol yn erbyn y tad dibreswyl, ond bod y dystiolaeth gerbron y llys yn nodi y byddai gorfodi cyswllt yn niweidio'r plentyn.

Aethpwyd i'r afael â sawl opsiwn erbyn i'r achos gyrraedd y Llys Apêl yn **Re Q (A Child) (Implacable contact dispute) [2015] EWCA Civ 991** [2015] EWCA Civ 991. Er nad yw'r term dieithrio'n ymddangos, mae'r dyfarniad yn glir bod y fam breswyl yn gwrthwynebu cyswllt ac roedd yn gyfrifol am ddylanwadu'n uniongyrchol ar y plentyn. Defnyddiodd y Llywydd yr egwyddorion yr oedd wedi eu rhestru yn **Re C [2011] EWCA Civ 521** (adran 2.1 uchod) ond daeth i'r casgliad bod y barnwr yn gywir wrth wneud gorchymyn i roi cynnig ar therapi a gohirio cyfranogiad pellach gan y llys.

Cododd **Re L-H (December 2017, nad cofnodwyd: crynodeb Westlaw yn unig)** o achosion cyfraith breifat yn wreiddiol a oedd wedi arwain at orchymyn gofal interim a gosod y plant mewn gofal maeth oherwydd niwed emosiynol.

Y dyfarniad a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar ac sy'n berthnasol iawn yw **Re J [2018] EWCA Civ 115**. Fel y nodwyd (adran 2.1), nododd y Llywydd drwy gyfatebiaeth y dull rhagweithiol presennol tuag at ddieithrio gan riant y byddai'n disgwyl i lys ei gymryd yn achos Haredi, *Re M* [2017] EWCA Civ 2164, er nad oedd hwn yn fater yn yr achos hwnnw ei hun. Dyfynnwyd y dull rhagweithiol hwn gan McFarlane LJ yn *Re J*, lle y pwysleisiodd bwysigrwydd gwrandawriad cynnar i ddod o hyd i ffeithiau os oes honiadau o ddieithrio plentyn oddi wrth riant. Nododd y dylid gorchymyn adroddiad lles adran 7 dim ond ar ôl i'r llys wneud canfyddiad ynghylch a oedd un rhiant wedi dylanwadu ar y plant neu beidio (er bod traws-honiadau o gam-drin domestig yn yr achos hwn):

As paragraph 22 of the current version of PD12J advises, it is not usual for a s 7 welfare report to be ordered prior to any fact-finding hearing being concluded. It is obvious that this should be so; where there is a polarised factual dispute, how can the report writer form an informed view on welfare. In the present case, at its extreme, the welfare

reporter would need to know if the children had been exposed to a sustained pattern of domestic abuse emanating from their father, or, conversely, whether the mother had manipulated the children so as to alienate them from an otherwise loving parent. [84]

5.2 Achosion Llys Apêl ac Uchel Lys lle gwnaed honiadau o ddieithrio plentyn oddi wrth riant ond na chawsant eu cadarnhau

Mae wyth achos wedi eu hadrodd lle honnodd tad bod dieithrio ac un achos ble gwnaed yr honiad gan fam; ni phrofwyd yr honiadau yn yr achosion hyn. (Mae'r achosion yma wedi eu rhestru gan ddechrau gyda'r diweddaraf.)

Re ER (A Child) (no. 2) [2017] EWHC 2033 (Fam)

Roedd hon yn apêl ddiweddar (i'r Uchel Lys) gan dad yn erbyn gorchymyn am gyswllt dan oruchwyliaeth yn unig. Canfu'r Llys nad oedd cyfiawnhad dros yr honiadau o ddieithrio plentyn oddi wrth riant ac mai cyswllt dan oruchwyliaeth oedd y gorchymyn cywir.

C v D [2017] EWHC 807 (Fam)

Yn y drafodaeth adleoli hon, roedd tystiolaeth Cafcass am wlad ddewisol y plant yn glir. Methodd y tad â phrofi eu bod wedi cael eu hyfforddi.

Re M v L (Children) [2016] EWHC 2535 (Fam)

Mewn achos diweddar arall Confensiwn yr Hag, roedd y fam yn honni bod y tad wedi dieithrio'r plentyn a bod y llysoedd a'r gweithwyr proffesiynol yn ei mamwlad yn gallu mynd i'r afael â'r mater hwn yn well na llysoedd Lloegr. Gwrthododd yr Uchel Lys y ddadl hon.

Re D (A Child) [2015] EWCA Civ 829

Honnodd y tad fod dieithrio wedi digwydd ar ran y fam. Ni chanfu'r llys unrhyw dystiolaeth o hyfforddi.

PM v MB & Anor [2013] EWCA Civ 969

Honnodd y tad ei fod yn dioddef dieithrio plentyn oddi wrth riant, ond canfuwyd ei fod yn risg i'r plentyn. Ni wnaed unrhyw orchymyn am gyswllt uniongyrchol er y nodwyd bod hwn yn achos prin ac eithriadol oherwydd y bydd y llys yn ymdrechu i gynnal perthynas ystyrlon gyda'r ddau riant.

Re W (Children) [2007] EWCA Civ 786

Apeliodd y tad yn erbyn gorchymyn am gyswllt dan oruchwyliaeth, gan honni bod dieithrio wedi digwydd. Roedd y llys wedi gwneud y gorchymyn cywir, yr oedd ef yn gwrthod ymgymryd ag ef.

Re B (A Child); Re O (A Child) [2006] EWCA Civ 1199

Honnodd y tad bod dieithrio plentyn oddi wrth riant a llygru systematig oherwydd nad oedd y llys yn fodlon comisiynu asesiad gan seicolegydd o'i ddewis. Yn anarferol, roedd barnwr yr Uchel Lys wedi cyfarfod â'r plant ei hun ac wedi penderfynu bod eu barn yn annibynnol ar rai'r fam.

Re O (A Child) (Contact) [2003] EWHC 3031 (Fam)

Er i honiadau'r tad gael eu gwrthod gan Wall J, mae'n gwahaniaethu hyn drwy ddweud ym mharagraff 91: 'Parental alienation is a well-recognised phenomenon'. Aeth ymlaen i roi enghraifft o achos lle roedd mam wedi perswadio ei phlant eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol gan eu tad – ***Re M (Intractable Contact Dispute: Interim Care Order) [2003] EWHC 1024 (Fam)***, lle roedd wedi gwahodd yr awdurdod lleol i wneud cais gofal a arweiniodd at orchymyn preswyllo i'r tad. Fodd bynnag, nododd hefyd ei fod yn cytuno â Sturge a Glaser bod 'syndrom dieithrio plentyn oddi wrth riant'(PAS) yn gamenw oherwydd bod PAS yn tybio achos sy'n arwain at ymyrraeth ragnodedig yn hytrach na'r cysyniad o 'elyniaeth ddifaddeuant' fel datganiad wedi ei anelu at ddeall sefyllfaoedd penodol y mae ystod eang o esboniadau yn bosibl ar eu cyfer, heb un ateb unigol.

Re L, V, M and H (Children) [2000] EWCA Civ 194⁹

Yr achos hwn yw'r awdurdod arweiniol o hyd ar gyswllt rhwng plentyn a rhiant lle bu euogfarnau neu ganfyddiadau o drais domestig. Yn un o'r pedwar achos cyfunol, *Re M*, roedd y tyst arbenigol wedi dod i'r casgliad bod hwn yn achos nodweddiadol o PAS. Penderfynodd Butler-Sloss LJ nad oedd bodolaeth PAS yn cael ei dderbyn yn gyffredinol. Er nad oedd unrhyw amheuaeth bod rhai rhieni, yn enwedig mamau, yn gyfrifol am ddieithrio eu plentyn heb reswm da, roedd hyn yn hysbys iawn mewn llysoedd teulu ac yn bell o fod yn syndrom cydnabyddedig oedd yn galw am rôl arbenigol gan weithwyr proffesiynol iechyd meddwl. Roedd y barnwr yn gywir i wrthod y theorïau a'r triniaethau gorfodol nad oeddent wedi eu profi a gyflwynwyd.

5.3 Achosion Llys Apêl ac Uchel Lys lle nodwyd mater o ddieithrio

Ceir hefyd nifer bach o achosion a adroddwyd lle caiff dieithrio ei nodi fel problem, er nad oedd wedi ei honni'n benodol.

Mewn dyfarniad anghyffredin, ***Re L and M (Children: Private Law) [2014] EWHC 939 (Fam)***, roedd y barnwr mewn gwrandawriad interim wedi nodi bod gweithredoedd y plant wrth gael cyswllt â'u tad yn awgrymu dieithrio plentyn oddi wrth riant oherwydd ei mam neu ei rheini

⁹ Mae agweddau perthnasol adroddiad Sturge a Glaser wedi eu nodi yn adran 2.3 uchod.

hi. Nid oedd hwn yn honiad yr oedd y tad wedi ei wneud yn benodol. Fodd bynnag, daeth y llys i'r casgliad bod y ddau riant yn benderfynol o ddilyn eu hagenda eu hunain ac na fyddent yn cyfaddawdu.

Yn yr achosion canlynol, mae dyfarniadau'n nodi dieithrio, yn yr ystyr o elyniaeth ddifaddeuant gydag un riant yn dylanwadu ar y plentyn, fel mater i'w benderfynu. Dyma'r dulliau a ddefnyddiwyd gan y llysoedd i fynd i'r afael â hyn: gwneud y plentyn yn barti a phenodi gwarcheidwad dan gyfarwyddau RhTT r 16.4; a 37; gorfodi; trosglwyddo preswylfa - neu gyfres o'r rhain.

5.3.1. Gorchmynion Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010 r. 16.4 (gorchmynion r 9.5 gynt o dan FPR 1991)

Caiff cais r 16.4 i benodi gwarcheidwad ar gyfer y plentyn ei drafod yn yr adran ar opsiynau yn 6.3 isod.

Re T (A Child) (Contact: Alienation: Permission to Appeal) [2002] EWCA Civ 1736

Cafodd yr apêl gan y tad ei chaniatáu oherwydd bod y barnwr wedi methu gwneud canfyddiad y naill ffordd na'r llall ar y dieithrio honedig.

Pwysleisiodd y Llys Apêl pan fydd honiad o'r fath mewn anghydfod, mae angen gwneud canfyddiad penodol ar y mater.

Cafodd RhTT 1991 r 9.5 ei awgrymu hefyd fel ffordd ymlaen yn **Re C (Children)(Prohibition on Further Applications) [2002] EWCA Civ 292**, lle rhoddodd Butler-Sloss LJ gyfarwyddydau i Cafcass gyda'r bwriad o edrych ar y teulu cyfan i weld os oes ffordd allan o'r problemau.

Mae **Re Q [2015]** (5.1 uchod) a **Re J [2017]** yn y Llys Teulu (5.5. isod) yn enghreifftiau mwy diweddar o'r defnydd o r 16.4.

5.3.2 Cyfarwyddyd Adran 37 o Ddeddf Plant 1989:

Lle mae'n ymddangos i'r llys, mewn unrhyw achos teulu, ei fod yn briodol i orchymyn gofal neu oruchwylio gael ei wneud, gall y llys roi cyfarwyddyd i'r awdurdod lleol i ymchwilio i hyn o dan a 37. Un enghraifft yw **Re M (Intractable Contact Dispute: Interim Care Order) [2003] EWHC 1024 (Fam)**. Roedd hwn yn achos eithafol a ddyfynnwyd gan Wall J yn **Re O [2003]** (5.2 uchod) fel enghraifft o ddieithrio gwirioneddol. Roedd tystiolaeth seiciatryddol arbenigol a thystiolaeth Cafcass o niwed emosiynol a achoswyd gan y fam. Mae'n glir o'r dyfarniad hwn bod hwn yn fater amddiffyn plant. Gwnaed cyfeiriad a 37 hefyd yn **Re J [2017]** (5.5 isod).

5.3.3 Trosglwyddo preswylfa:

Re S (A Child) [2010] EWHC 3721 (Fam)

Ar ôl deng mlynedd o ymgyfreitha (bron hyd bywyd y plentyn), roedd y barnwr wedi gorchymyn trosglwyddo preswylfa o'r fam i'r tad. Roedd y gwrandawriad hwn er mwyn setlo'r trefniadau trosglwyddo wedi i gais y fam i apelio gael ei wrthod. Dyfynnodd y barnwr ymchwil yn rhifyn arbennig o'r *Family Court Review* (Warshak; Jaffe *et al*; Bala 2010).¹⁰

Gwnaed trosglwyddiad preswyllo a gefnogwyd gan Orchymyn Cymorth Teulu (a 16 Deddf Plant 1989) yn **Re A (A child) [2007] EWCA Civ.** Cadarnhawyd y gorchmynion (o blaid y tad dibreswyl) gan y Llys.

5.3.4. Gorfodi cyswllt

Cyflwynwyd dulliau newydd o orfodi gorchmynion cyswllt gan Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006 (Trinder *at al*, 2013). Fodd bynnag, efallai y bydd ceisiadau i orfodi cyswllt yn wrthgynhyrchiol, er enghraifft yn **Re L-W [2010] EWCA Civ 1253**, a ddisgrifiwyd gan farnwr yr Uchel Lys fel achos o ddieithrio plentyn oddi wrth riant, lle roedd achos gorfodi yn cael ei cymryd gan y fam yn erbyn y tad preswyl.

5.4 Llys Hawliau Dynol Ewrop

O ystyried dadleuon cyswllt yn gyffredinol, crynhodd y Llywydd benderfyniadau Llys Hawliau Dynol Ewrop ar unrhyw ymyrraeth ag Erthygl 8 (yr hawl i barchu bywyd preifat a theuluol) drwy gyfyngu ar gyswllt yn ôl yr angen am hyn i fod yn wrthrychol er budd gorau'r plentyn, gan gydbwyso hawliau'r rhieni yn erbyn budd gorau'r plentyn a cheisio ailsefydlu'r berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn (**Re C [2011] EWCA Civ 521 ym mharagraff 42**).

Mae pedwar achos yn Llys Hawliau Dynol Ewrop sy'n dyfynnu dieithrio.

Mae **Sommerfeld v Germany 31871/96** a **Sahin v Germany 30943/96** yn ymwneud â chwynion gan dadau di-briod o dan Erthygl 8 am lysoedd yr Almaen yn peidio â gwneud gorchmynion cyswllt.

Yn *Sommerfeld*, penderfyniad y mwyafrif oedd bod gan y barnwr lleol ddigon o dystiolaeth oherwydd yr oedd wedi cyfarfod â'r plentyn dair gwaith dros dair blynedd ac mewn sefyllfa i asesu a oedd modd ei gorfodi i weld ei thad. Mae PAS a Gardner yn cael eu dyfynnu fel mewn dyfarniad anghytûn, nad oeddent yn cytuno â'r penderfyniad mwyafrifol y gallai plentyn 13 oed nodi ei ddymuniadau gwirioneddol. Yn *Sahin* honnodd y

¹⁰ Dyma'r unig ddyfarniad sy'n cynnwys dieithrio ar wahân i *Re L & ors* sy'n dyfynnu ymchwil. Cafodd y papurau eu darparu gan y tyst arbenigol ond cawsant eu darllen a'u dadansoddi gan y barnwr, yn benodol ar y trosglwyddo preswylfa dan sylw.

tad bod PAS ar waith. Ni chanfyddodd y Siambr Fawr unrhyw ganfyddiadau ar y pwynt hwn ond penderfynwyd bod y penderfyniadau cyswllt wedi cael eu gwneud ar sail tystiolaeth annigonol o adroddiadau seicolegydd am blentyn pump oed.

Yn ***Elsholz v Germany* 25735/94** dadleuodd y tad y dylai awdurdodau'r Almaen gymryd sylw o ymchwil yr Unol Daleithiau ar PAS. Ni wnaeth y Siambr Fawr unrhyw ganfyddiadau penodol am PAS ond nodwyd yr ymyrrwyd ar Erthygl 6 ac 8 oherwydd bod unrhyw benderfyniadau wedi ei eithrio, wedi eu gwneud ar gyflwyniadau papur yn unig ac na fu tystiolaeth gan arbenigwr.

Yn fwy diweddar o lawer, yn ***K.B. v Croatia* 36216/13** (Nas cofnodwyd, Nodyn achos EHRLR 2017, 4, 409-412) penderfynodd y Llys y dylai'r awdurdodau taleithiol archwilio'r rhesymau a oedd yn sail i blentyn yn gwrthod hawliau cyswllt yn ofalus iawn cyn penderfynu pa fesurau a oedd fwyaf effeithiol wrth adfer cyswllt. Fodd bynnag, mae'r nodyn achos yn dod i'r casgliad bod cymhlethdodau hawliau cyswllt a dieithrio plentyn oddi wrth riant yn parhau i fod wedi'u hegluro'n wael gan y dyfarniad.

5.5 Llys Teulu

Nid oes gan ddyfarniadau'r Llys Teulu unrhyw statws y tu hwnt i fod yn rhwymo'r partïon, ond caiff rhai eu cyhoeddi ar BAILII at ddibenion addysg gyfreithiol gyhoeddus o dan ganllawiau tryloywder y Llywydd ers mis Chwefror 2014. Rhestrir yr holl rai hynny a ganfuwyd a ddyfynnodd ddieithrio (7) yn Nhabl 4 yn Atodiad A, gan y gallent fod yn ddefnyddiol at ddibenion astudiaeth achos.

Yn ogystal â hyn, mewn dyfarniad Llys Teulu nad yw'n defnyddio'r gair dieithrio, ***Re J (A Child - Intractable Contact)* [2017] EWFC B103**, roedd yr achos wedi bod yn mynd rhagddo am saith mlynedd. Roedd y llys wedi gwneud cyfarwyddyd r. 16.4; roedd asesiadau seicolegol a sesiynau therapi a chanfyddiad ffeithiol bod y fam yn cam-drin y plentyn yn emosiynol drwy wrthod cyswllt. Gwnaeth y llys gyfarwyddyd adran 37 wedyn, gan arwain at gynllun Plant Mewn Angen awdurdod lleol, ond tynnodd y tad ei geisiadau yn ôl.

5.6 Casgliad

Mae awdurdod y Llys Apêl yn pwysleisio pwysigrwydd hyrwyddo cyswllt diogel a phenderfynu ar unrhyw honiadau neu ymddangosiad dieithrio mor gynnar yn yr achos ag sy'n bosibl.

Mae niferoedd annigonol o ddyfarniadau a adroddwyd neu a gyhoeddwyd ar ddieithrio er mwyn nodi unrhyw batrymau o ran gwneud penderfyniadau. Ymhellach, cafodd yr achosion hyn (tan 2013/14) eu

cynnal mewn amgylchedd gwahanol i heddiw, lle mae cynrychiolaeth gyfreithiol a thystion arbenigol yn llai tebygol o fod ar gael. Gwahaniaeth arall yw y caiff y rhan fwyaf o achosion cyfraith breifat eu cynnal ar hyn o bryd gan farnwyr rhanbarth ac ynadon, nid barnwyr cylchdaith. Ni chaiff dyfarniadau sydd islaw lefel barnwyr cylchdaith eu hadrodd, ac nid ydynt yn ddarostyngedig i ganllawiau tryloywder ac nid ydynt yn cael eu cyhoeddi ar BAILII. Byddai ymchwil ar wrandawiadau ar y lefel hon yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at y sail wybodaeth, sy'n gyfyngedig iawn ar hyn o bryd.

Mae nifer o'r achosion a adroddwyd yn ymwneud â rhieni nad ydynt yn breswylwyr ac y maent yn anfodlon a wnaeth honiadau di-sail ac na brofwyd yn erbyn y rhiant preswyl fel ffordd o herio telerau gorchymyn llys. Roedd yr honiadau hyn fwyaf aml, ond nid bob amser, yn cael eu gwneud gan dadau yn erbyn mamau. Yng ngoleuni'r nifer bach o achosion a adroddwyd, nid yw hyn o anghenraid yn dynodi gwrthod ehangach gan lysoedd o honiadau celwyddog am ddieithrio.

Pan nad oedd cyswllt yn digwydd oherwydd ddieithrio/gelyniaeth, ac roedd y llys wedi penderfynu y byddai o fudd i'r plentyn i gyswllt ddechrau neu ailddechrau, mae ystod o ddulliau wedi cael eu profi. Er bod cyngor tystion arbenigol wedi ei werthfawrogi, ar y cyfan, ni dderbyniwyd therapydd a wnaeth ddiagnosis o ddieithrio plentyn oddi wrth riant, lle'r oedd angen ei driniaeth therapiwtig ei hun, fel rhywbeth oedd yn ddefnyddiol. Mewn rhai achosion, mae sawl achos o ymyrraeth wedi ei geisio dros gyfnod o flynyddoedd.

Mae'r dyfarniadau yn dueddol o fod yn benodol o ran ffeithiau ond gellir dod i'r casgliadau canlynol:

- Ni fydd llysoedd yn caniatáu gelyniaeth ddifaddeuant un rhiant i'w rhwystro rhag gwneud gorchymyn cyswllt os yw lles y plentyn yn gwneud hynny'n ofynnol fel arall. Mewn achosion o'r fath, dylid gwrthod cyswllt dim ond lle bydd llys yn fodlon bod perygl difrifol o niwed pe byddai cyswllt yn cael ei orchymyn.
- Mewn rhai achosion eithriadol, lle na ellir beirniadu ymddygiad y rhiant nad oedd yn breswyl, mae effaith achos cyswllt parhaus ar y plentyn yn golygu y bydd y llys yn penderfynu na ddylai'r achos hwnnw barhau.
- Lle gwneir honiadau am ddieithrio plentyn oddi wrth riant, bydd angen i'r llys gofnodi penderfyniad am y ffeithiau, neu fod mewn perygl o apêl ddiangen.

- Nid does ateb cyffredinol, ond mae'r canlyniadau yn fwy tebygol o ddiwallu anghenion y plentyn pan fydd:
 - Datrysiad cynnar o ffeithiau dadleuol am drais domestig.
 - Ymyrraeth gynnar lle ymddengys fod dieithrio yn broblem
 - Ystyriaeth gynnar o orchmynion r 16.4
- Fel y nodir yn **Re J [2018] EWCA Civ 115**, mae angen penderfyniad barnwrol o honiadau cyn y gall adroddiad adran 7 roi gwybod i'r llys am les y plentyn.
- Bydd gorchymyn am drosglwyddo preswylfa yn golygu rhoi sylw manwl iawn i'r rhestr wirio lles.

6.0 Trafodaeth a chasgliadau

6.1 Dieithrio plentyn oddi wrth riant, PAS a gelyniaeth ddifaddeuant

Mae dieithrio plentyn oddi wrth riant wedi dod yn derm awgrymog ers ei darddiad yn ymchwil Wallerstein a Kelly i effaith ysgaru yn y 1970au. Gall plant ymddieithrio neu ddieithrio oddi wrth riant am amrywiaeth o resymau ac os bydd hyn yn digwydd pan fo rhieni'n gwahanu, gall arwain at effaith fwy difrifol a fydd yn para'n hwy ar berthnasod nag mewn teulu cyflawn.

Ar y llaw arall mae PAS, fel y'i dyfeisiwyd gan Gardner, wedi'i danseilio i raddau helaeth neu, hyd yn oed lle mae'n dal i gael ei ddyfynnu mewn llenyddiaeth Americanaidd, bu'n destun addasu sylweddol (Warshak, 2006). Efallai y bydd mater PAS fel cyflwr y gellir rhoi diagnosis ohono yn fwy perthnasol yn yr Unol Daleithiau, lle mae'n eistedd i raddau helaeth o fewn disgyblaeth seicotherapiwtig, nag ydyw wedi bod yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y ddadl wedi creu dryswch wrth atodi label diangen i'r achosion prin iawn o riant yn trwytho credoau ffug mewn plentyn sy'n ffurf ar gam-drin emosiynol. Er bod achosion eithafol o'r fath yn brin, maent yn amlwg o fewn diffiniadau niwed sylweddol yn y canllawiau statudol. Yr hyn sy'n llawer llai o amlwg yw lefel y risg o niwed emosiynol i blentyn sy'n gwrthod cyswllt pan nad oes honiadau gwirioneddol neu gelwyddog o drais neu gam-drin, a sut gall y rhesymau dros ymwrthedd y plentyn gael eu nodi a'u datrys er mwyn ailddechrau'r hyn a fu'n berthynas gadarnhaol cyn gwahanu.

Er ei bod yn well gan gyfreithwyr o bosibl ddefnyddio'r term gelyniaeth ddifaddeuant yn lle dieithrio plentyn oddi wrth riant, nid ydynt yn gwbl gyfystyr, oherwydd efallai y bydd plant yn profi teimladau cyffredinol o ddieithrio nad ydynt yn cael eu hannog gan un rhiant neu'r llall na'u targedu at un rhiant neu'r llall.

Mae'r diffyg diffiniad yn un broblem. Mae'r adolygiad hwn hefyd wedi nodi yr ymddengys nad oes consensws ar ddulliau ar gyfer gwahaniaethu rhwng dieithrio plentyn oddi wrth riant ac ymddieithrio y gellir ei gyfiawnhau¹¹; diffyg data dibynadwy ar nifer yr achosion o ddieithrio a chysylltiad achosol rhwng nodweddion ac effeithiau; dim canlyniadau ystyrlon o'r mesurau a phroffion presennol; a diffyg gwerthuso cadarn o

¹¹ Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar wrthod cyswllt yn absenoldeb cam-drin domestig, felly cafodd chwiliadau eu culhau i eithrio'r materion hyn, ond nid oedd bob amser yn bosibl a oedd yr astudiaethau eu hunain wedi'u heithrio'n llwyr.

fodelau ymyriad. At hynny, mae gweinyddu profion ac ymyriadau o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol cael elfen o orfodaeth a fyddai'n codi anawsterau cyllid yn awdurdodaeth Cymru a Lloegr.

Serch hynny, mae'n glir o'r dyfarniadau a adroddwyd ac a gyhoeddwyd bod llysoedd Cymru a Lloegr yn cydnabod bod achosion o berthynas gadarnhaol flaenorol rhwng plentyn a'i riant yn cael ei niweidio gan elyniaeth ddifaddeuant un neu ddau rhiant yn dilyn gwahanu. Nid ymddengys fod atodi label o ddieithrio plentyn oddi wrth riant yn cynorthwyo wrth ddadansoddi'r dymameg teuluoedd cymhleth ar adeg o'r fath.

6.2 Ymdrin â honiadau o ddieithrio plentyn oddi wrth riant mewn achosion llys

Lle mae cam-drin domestig wedi'i honni, mae canfyddiad ffeithiol cynnar o dan CY12J yn hanfodol cyn i'r ysgrifennwr adroddiad adran 7 allu dadansoddi'r rhesymau dros wrthwynebiad plentyn i gyswllt. Yn yr un modd, mae angen i honiadau o dieithrio difrifol plentyn oddi wrth riant, gael eu datrys gerbron y llys cyn i'r adroddiad adran 7 allu dechrau.

Mae Syr Andrew McFarlane wedi mynegi pryder, dros yr wythnosau diwethaf, nad yw'r amser, adnoddau a phryder barnwrol angenrheidiol yn cael eu rhoi i achosion cyswllt a allai fod yn anhydrin:

the guidance in PD12J is both clear and correct in stating that, where such a hearing is necessary, it must be undertaken and undertaken very promptly in the early stages of proceedings. Not to do so simply stores up problems which become more and more difficult to unpick as the months, and years, go by. The interests of the children are not served and those who may be called upon to advise the court as to the children's welfare, whether as CAFCASS officers or guardians, have no factual bedrock from which to work.

Fodd bynnag, mae'n mynd ymlaen i ddweud:

It is, in my view, unhelpful to look in every such case to see if it is possible to identify a formal label of "Parental Alienation Syndrome". In such cases, that there has been 'alienation', with a small 'A', will normally be a given; it is that factor which will often render the case 'intractable'. (McFarlane, 2018: 7-8)

Mae'r farn hon, efallai, yn arwydd er bod honiadau o ddieithrio plentyn oddi wrth riant yn brin, mae sylw agosach yn cael ei roi gan y farnwriaeth i ddatrys y rhain drwy wrandawriad canfod ffeithiau ar gam cynnar, cyn i'r sefyllfa ymwreiddio.

Y barnwr sy'n gyfrifol am benderfynu ar ffeithiau y ceir anghydfod yn eu cylch, nid y cynghorydd llys teulu (**QS v RS & Anor [2016] EWHC 1443 (Fam)**). Er y gall cyfryngu neu ddull amgen o ddatrys anghydfod fod yn briodol a'u hannog mewn cyfraith teulu, mae ceisiadau adran 8 yn dal yn destun y broses gyfreithiol wrthwynebol a chyfrifoldeb y llys, nid cynghorydd llys teulu, yw datrys ffeithiau y ceir anghydfod amdanynt o ran yr hyn y byddai rhiant dibreswyl yn ei ddisgrifio fel 'dieithrio plentyn oddi wrth riant'. Fel y dywedodd Baker J yn **A London Borough Council v K [2009] EWHC 850 (Fam)**

No expert, however experienced and however well briefed about the case, will be in a position to say where the truth lies. Only the judge sees and hears all the evidence. [162]

Yn unol â hynny, dylid bod yn ofalus i beidio â rhagfarnu neu labelu rhiant neu blentyn fel troseddwr, dioddefwr neu gynllwyniwr mewn achos o ddieithrio plentyn oddi wrth riant yn absenoldeb penderfyniad llys i'r perwyl hwnnw.

6.3 Opsiynau ar gyfer y llys

Rhoddir rhai enghreifftiau o'r amrywiaeth o opsiynau yn yr achosion yn adran 5.3 uchod.

1. Cyfarwyddyd ar gyfer ymchwiliad **adran 37** – bydd yr awdurdod lleol yn cael cyfarwyddyd i ymchwilio a ddylai ystyried gwneud cais am orchymyn gofal neu oruchwylio. Dim ond pan fydd yr awdurdod lleol yn dod o hyd i dystiolaeth o niwed sylweddol y bydd awdurdod lleol yn gwneud cais o'r fath. Er mewn rhai achosion a adroddwyd, ceir tystiolaeth o niwed emosiynol sylweddol, byddai gorchymyn o'r fath dim ond yn cyflawni canlyniad ystyrllon ar gyfer y plentyn pe bai'r awdurdod lleol yn arfer ei gyfrifoldeb rhiant i symud y plentyn i ofal maeth. Byddai gorchymyn goruchwylio yn ei gwneud yn ofynnol cael elfen o gydweithredu gan y ddau riant.
2. Mae Gorchymynion Cymorth Teulu o dan **adran 16** wedi'u crybwyll ond mae'r rhain hefyd yn ei gwneud yn ofynnol cael cydweithredu a gellir eu gwneud dim ond os yw'r holl bartion a swyddog Cafcass Cymru yn cytuno ar hynny.
3. Ceir darpariaeth benodol yn y rheolau llys (Rhan 16) i'r plentyn gael ei wneud yn barti a gellir ei gynrychioli ar wahân o dan **RhTT r 16.4**. Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer cysylltiedig yn datgan mai dim ond ar ôl ystyried gwaith pellach gan y cynghorydd llys teulu Cafcass y dylid gwneud y penodiad hwn; atgyfeiriad adran 37; neu gael tystiolaeth arbenigol (CY 16 paragraff 7.1). Fodd bynnag,

mae'r achosion a adroddwyd yn nodi bod penodiad r.16.4 yn fwy tebygol o ragflaenu cyfarwyddyd adran 37 yn hytrach na'r gwrthwyneb.

Ceir un sail ar gyfer gwneud penodiad r 16.4 ym mharagraff 7 y Cyfarwyddyd Ymarfer. 2 (c):

where there is an intractable dispute over residence or contact, including where all contact has ceased, or where there is irrational but implacable hostility to contact or where the child may be suffering harm associated with the contact dispute.

Y manteision yw bod y plentyn yn cael statws parti ar wahân a chaiff gwarcheidwad plentyn ei benodi gan Cafcass i ganfod dymuniadau a theimladau'r plentyn a chynghori'r llys ar yr opsiynau sydd ar gael iddo mewn perthynas â'r plentyn ac addasrwydd pob opsiwn o'r fath, gan gynnwys pa orchymyn y dylid ei wneud wrth benderfynu ar y cais RHTT 16.6 (e)). Caiff cyfreithiwr ei benodi gan Cafcass hefyd a bydd y plentyn, os yw'n ddigon hen, yn gallu ei gyfarwyddo'n uniongyrchol.

Gall y model 16.4 hwn, sydd wedi'i ragweld yn glir fel un sy'n briodol yn y math hwn o achos, arwain at ddatrys cyflymach yn hytrach na pharhau â rôl y cynghorydd llys teulu sy'n canolbwytio mwy ar gymodi.

4. Bydd effeithiolrwydd cyfarwyddiadau ar gyfer **tystiolaeth arbenigol annibynnol a/neu therapi** yn dibynnu ar argaeledd a chyllid, yn ogystal â chael eu derbyn gan y ddau barti.
5. Nid oes unrhyw arwyddion bod darpariaethau **gorfodi** Deddf Plant a Mabwysiadu 2006 wedi bod yn effeithiol iawn (Trinder a Hunt 2013; Halliday et al 2017).
6. Efallai mai **trosglwyddo preswylfa**, naill ai ar unwaith neu'n ohiriedig, fydd y canlyniad gorau i rai plant, ond mae'r swm cyfyngedig o wybodaeth am sut mae'r llys yn trin achosion o'r fath yn nodi bod hwn yn ateb cymhleth sy'n ei gwneud yn ofynnol cael cymorth a rheoli dwys (gweler *Re S* [2010] yn Atodiad A Tabl 3).
7. Cafodd **gwardiaeth** ei grybwyll fel opsiwn yn *Re M* [2017] (adran 2.0 uchod) ond ni ellir dod o hyd iddi mewn unrhyw achosion a adroddwyd.
8. Yng nghyd-destun Cymru, efallai mai opsiwn arall fydd cais gan y llys i'r awdurdod lleol am asesiad o dan Ran 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, lle mae'n

ymddangos y gall fod angen gofal a chymorth ar y plentyn (a. 21). Awgrymir y dull hwn gan yr achos o *Re J* [2017] (gweler 5.5 uchod).

6.4 Sylw diweddar yn y cyfryngau

Nid yw'r adolygiad hwn o'r llenyddiaeth ymchwil a'r dyfarniadau wedi cynhyrchu unrhyw dystiolaeth o ffynonellau newydd sy'n tanlinellu'r sylw a roddwyd gan y wasg i ddieithrio plentyn oddi wrth riant yn ystod mis Tachwedd 2017. Roedd sylw'r cyfryngau yn tueddu i ganolbwyntio ar rieni a ddieithriwyd fel dioddefwyr, yn hytrach nag ar hawliau a lles plant. Felly efallai bydd yn seiliedig ar wybodaeth gan grwpiau pwyso sy'n credu nad yw gweithwyr proffesiynol gwaith cymdeithasol a chyfreithiol yn cydnabod dieithrio plentyn oddi wrth riant fel anghydfod diffuant sy'n cael ei deimlo gan rai rhieni dibreswyl. Mae anfonlonrwydd ymhlith ymgyfreithwyr mewn llysoedd teulu yn fater hir sefydledig, sydd bellach yn cael ei waethygu gan ddiffyg cymorth yn dilyn tynnu cymorth cyfreithiol yn ôl. Fodd bynnag, ni chafwyd bod unrhyw astudiaethau neu achosion diweddar wedi awgrymu bod y dull o ddeddfwriaeth ac arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn cuddio unrhyw gynnydd mewn achosion o ddieithrio. Mae'r syniad o blentyn yn colli perthynas werthfawr gyda rhiant yn parhau'n un sy'n poeni ymarferwyr cyfreithiol a gweithwyr cymdeithasol a gwneuthurwyr polisi. Mewn rhai achosion, ymddengys fod y dasg o wahaniaethu rhwng anawsterau tymor byr wrth addasu i newid teuluol, ymddieithrio y gellir ei gyfiawnhau, a dylanwadu ar farn plentyn, yn galw am gryn amser ac arbenigedd nad yw o bosibl ar gael yn hawdd, ac mae hyn o bosibl yn creu pryderon. Byddai ymchwil ar ddealltwriaeth ymarferwyr o resymau dros wrthod cyswllt a phrofiadau teuluoedd o hyn yn cynorthwyo wrth nodi a yw pryderon o'r fath yn bodoli a sut y gellid mynd i'r afael â hwy.

6.5 Casgliadau

Mae'r adolygiad hwn wedi canfod bod y sail dystiolaeth ar gyfer dieithrio plentyn oddi wrth riant yn gyfyngedig iawn oherwydd diffyg astudiaethau empirig cadarn. Mae absenoldeb llenyddiaeth am sut y mae'r cysyniad o ddieithrio'n cael ei ddeall, ei asesu a sut y gweithir gyda'r cysyniad o safbwynt ymarferol. Mae'r dystiolaeth empirig gyfyngedig yn dioddef o samplu gwael, neu ganolbwyntio ar boblogaethau penodol, felly ni ellir ei chyffredinolli'n hawdd. Ceir dibyniaeth ar gyfrifon ôl-weithredol, nad ydynt yn galluogi rheoli newidynnau allanol neu nodi er mwyn sefydlu perthynas achosol rhwng canlyniadau andwyol a dieithrio. Mae angen gwaith ymchwil gydag amrywiaeth o wahanol grwpiau rhanddeiliaid (gan gynnwys teuluoedd a phlant). Problem arall yw bod y rhan fwyaf o'r

ymchwil wedi canolbwyntio ar leoliadau daearyddol penodol, yr UDA yn bennaf, lle mae amgylcheddau cyfreithiol a chlinigol yn wahanol i'r rhai yng Nghymru. Mae cyfeiriadau uniongyrchol at ymchwil mewn dyfarniadau llys a adroddwyd yng Nghymru a Lloegr yn brin iawn.

Oherwydd nad oes diffiniad clir a dderbynnir na chytundeb ar nifer yr achosion o ddieithrio, mae gwybodaeth am y cysyniad a'i dderbyniad yn amrywio ar draws y proffesiynau cyfreithiol ac iechyd meddwl. Mae rhywfaint o gytundeb cyffredinol ar yr ymddygiad a'r strategaethau a ddefnyddir, sydd wedi arwain at nifer o fesurau a phrofion ar gyfer dieithrio plentyn oddi wrth riant, er bod angen rhagor o ymchwil cyn y gellir sicrhau dibynadwyedd a dilysrwydd. Mae'r ymyriadau hyn yn canolbwyntio ar ddulliau seico-addysgol o weithio gyda phlant a rhieni, ond mae angen gwerthuso er mwyn penderfynu ar eu heffeithiolrwydd. Nid yw'n glir pa rai o'r modelau a ddisgrifir yn y llenyddiaeth sy'n cael eu cymhwyso neu ar gael yng Nghymru a Lloegr, os o gwbl.

Mae dyfarniadau llys a adroddwyd yn pwysleisio dull rhagweithiol o sicrhau bod plant yn cael cyswllt parhaus â'r rhiant dibreswyl. Lle mae honiadau neu faterion o ddieithrio yn codi, ystyrir bod yr angen i benderfynu'r ffeithiau'n gynnar yn ffactor hanfodol wrth gyflawni'r canlyniad gorau ar gyfer y plentyn.

7.0 Goblygiadau allweddol ar gyfer ymarfer

- Byddai arolwg o brofiad cynghorwyr llys teulu o honiadau neu faterion dieithrio, sut yr aed i'r afael â'r rhain, cryfder y dystiolaeth y dibynnir arni mewn achosion, effaith ar blant ac unrhyw anghenion hyfforddiant yn helpu i lywio datblygiad ymarfer.
- Mae angen i arfer da mewn anghydfodau cyswllt anhydrin gynnwys prosesau clir i ymchwilio i resymau lle mae plentyn yn gwrthod neu ymwrthod â chyswllt a dadansoddi'r rhesymau dros hyn. Mae gan Cafcass Cymru nifer o ddulliau asesu wedi'u dilysu, gan gynnwys y Rhestr Wirio Lles Plant a'r Glasoed (CAWAC) sy'n gallu helpu yn y maes hwn.
- Lle mae'r sail ar gyfer gwrthod yn ymddangos yn afresymegol, bydd yr ymarferydd yn ymwybodol y bydd y llys yn ceisio cynnal neu ailddechrau trefniadau cyswllt diogel.
- Mae llenyddiaeth ymchwil a chanllawiau barnwrol yn glir bod nodi'r materion yn gynnar yn bwysig o ran atal sefyllfaoedd rhag ymwreiddio. Mae angen i gynghorwyr llys teulu Cafcass Cymru deimlo'n hyderus wrth wneud cais am wrandawriad ar ganfyddiadau ffeithiol neu ystyried penodi gwarcheidwad r 16.4, lle y bo'n briodol, ar gam cynnar. Dylai honiadau o ddieithrio rhieni a wneir gan un parti, neu ffeithiau y ceir anghydfod yn eu cylch sy'n arwain at wrthod cyswllt heb gyfiawnhad, gael eu cyfeirio i'r llys mor gynnar â phosibl, cyn y gellir cyflwyno adroddiad a 7 sy'n nodi'r opsiynau.
- Bydd angen i unrhyw dystiolaeth a roddir i'r llys gan gynghorydd llys teulu cyn bod canfyddiad ffeithiol yn cael ei wneud am honiadau o gam-drin ystyried yr amrywiaeth o orchmynion sydd ar gael ar y sail y gellir canfod bod yr honiadau'r wir, yn rhannol wir neu ddim yn wir.
- Ceir potensial i Cafcass Cymru edrych yn agosach ar benodiadau r16.4, eu heffeithiolrwydd mewn achosion o wrthdaro uchel, ac archwilio a oes unrhyw gyfleoedd ar gyfer eglurder o ran dull.
- Lle mae dystiolaeth i awgrymu bod plentyn yn destun niwed sylweddol, neu mewn perygl o hyn yn digwydd, o ganlyniad i ddieithrio a all arwain at gam-drin emosiynol, dylid gwneud atgyfeiriad i'r awdurdod lleol yn unol â gweithdrefnau diogelu.
- Pan fo llys yn gwneud canfyddiad o ddieithrio plentyn oddi wrth riant sy'n gyfystyr â risg o niwed emosiynol (yn brin o niwed

sylweddol), mae angen i gynghorwyr llys teulu fod yn ofalus wrth asesu neu argymhell ymyriad penodol oherwydd bod y sail dystiolaeth ar gyfer ymyriadau yn gyfyngedig iawn.

- Ymddengys fod rhywfaint o gam-wybodaeth yn y cyfryngau ac ymhlith grwpiau pwyso ar y pwnc hwn, sy'n awgrymu y byddai'n ddefnyddiol hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r sail dystiolaeth ar gyfer dieithrio plentyn oddi wrth riant ymhlith staff Cafcass Cymru, gwasanaethau plant a gwasanaethau iechyd meddwl yn gyffredinol.

8.0 Cyfeiriadau

Advisory Board on Family Law (2001). *Making Contact Work: the facilitation of arrangements for contact between children and their non-residential parents: and the enforcement of court orders for contact*. Adran yr Arglwydd Ganghellor

Avitia, M. (2011). The noncustodial parents description of the experience of parental alienation syndrome: a phenomenological study. Capella University

Baker, A. J. L. (2005). The Long-Term Effects of Parental Alienation on Adult Children: A Qualitative Research Study. *The American Journal of Family Therapy*, 33(4), 289–302.
<https://doi.org/10.1080/01926180590962129>

Baker, A. J. L. (2006). Patterns of Parental Alienation Syndrome: A Qualitative Study of Adults Who were Alienated from a Parent as a Child. *The American Journal of Family Therapy*, 34(1), 63–78.
<https://doi.org/10.1080/01926180500301444>

Baker, A. J. L. (2007). Knowledge and Attitudes About the Parental Alienation Syndrome: A Survey of Custody Evaluators. *The American Journal of Family Therapy*, 35(1), 1–19.
<https://doi.org/10.1080/01926180600698368>

Baker, A. J. L., and Ben-Ami, N. (2011). To Turn a Child Against a Parent Is To Turn a Child Against Himself: The Direct and Indirect Effects of Exposure to Parental Alienation Strategies on Self-Esteem and Well-Being. *Journal of Divorce and Remarriage*, 52(7), 472–489.
<https://doi.org/10.1080/10502556.2011.609424>

Baker, A. J. L., and Chambers, J. (2011). Adult Recall of Childhood Exposure to Parental Conflict: Unpacking the Black Box of Parental Alienation. *Journal of Divorce and Remarriage*, 52(1), 55–76.
<https://doi.org/10.1080/10502556.2011.534396>

Baker, A. J. L., a Damall, D. C. (2007). A Construct Study of the Eight Symptoms of Severe Parental Alienation Syndrome. *Journal of Divorce and Remarriage*, 47(1–2), 55–75.
https://doi.org/10.1300/J087v47n01_04

Baker, A. J. L., a Darnall, D. (2006). Behaviors and Strategies Employed in Parental Alienation. *Journal of Divorce and Remarriage*, 45(1–2), 97–124. https://doi.org/10.1300/J087v45n01_06

Baker, A. J. L., a Eichler, A. (2016). The Linkage Between Parental Alienation Behaviors and Child Alienation. *Journal of Divorce and*

Remarriage, 57(7), 475–484.

<https://doi.org/10.1080/10502556.2016.1220285>

Baker, A. J. L., Burkhard, B., ac Albertson-Kelly, J. (2012). Differentiating Alienated From Not Alienated Children: A Pilot Study. *Journal of Divorce and Remarriage*, 53(3), 178–193.

<https://doi.org/10.1080/10502556.2012.663266>

Bala, N., Hunt, S., a McCarney, C. (2010). Parental Alienation: Canadian Court Cases 1989-2008. *Family Court Review*, 48(1), 164–179.

<https://doi.org/10.1111/j.1744-1617.2009.01296.x>

Balmer, S., Matthewson, M., a Haines, J. (2017). Parental alienation: Targeted parent perspective. *Australian Journal of Psychology*.

<https://doi.org/10.1111/ajpy.12159>

Beebe, P. C., a Sailor, J. L. (2017). A Phenomenological Study of Parental Estrangement. *Journal of Divorce and Remarriage*, 58(5), 347–357.

<https://doi.org/10.1080/10502556.2017.1305855>

Ben-Ami, N., a Baker, A. J. L. (2012). The Long-Term Correlates of Childhood Exposure to Parental Alienation on Adult Self-Sufficiency and Well-Being. *The American Journal of Family Therapy*, 40(2), 169–183.

<https://doi.org/10.1080/01926187.2011.601206>

Bernet, W. (2016a). An objective measure of splitting in parental alienation: the parental acceptance-rejection questionnaire. *Journal of the American Academy of Child and Adolescent Psychiatry*, 55(10S), S201.

Bernet, W. (2016b). Children of Divorce: Breaking News for Clinicians and Forensic Practitioners. *Journal of the American Academy of Child & Adolescent Psychiatry*, 55(10), S27

Bernet, W., von Boch-Galhau, W., Baker, A.J. a Morrison, S.L. (2010). Parental alienation, DSM-V, and ICD-11. *The American Journal of Family Therapy*, 38(2), tt.76-187.

Bernet, W. a Baker, A.J. (2013). Parental alienation, DSM-5, ac ICD-11: Response to critics. *Journal of the American Academy of Psychiatry and the Law Online*, 41(1), tt.98-104.

Bow, J. N., Gould, J. W., a Flens, J. R. (2009). Examining Parental Alienation in Child Custody Cases: A Survey of Mental Health and Legal Professionals. *The American Journal of Family Therapy*, 37(2), 127–145

Clarkson, D. a Clarkson, H. (2006) The Unbreakable Chain under Pressure: The Management of Post-separation Parental Rejection, *The Journal of Social Welfare & Family Law*, 28(3/4), 251-266.

Darnall, D., a Steinberg, B. F. (2008). Motivational Models for Spontaneous Reunification With the Alienated Child: Part I. *The American Journal of Family Therapy*, 36(2), 107–115

Fortin, J, Hunt, J. a Scanlan, L. (2012) *Taking a longer view of contact: the perspective of young adults who experienced parental separation in their youth/* University of Sussex/Nuffield Foundation

Gaffal, M. (2012). *Parental Alienation in Divorce Judgments. InDret*, 4. <https://doi.org/10.2139/ssrn.2182523>

Gardner, R. A. (2002). Parental Alienation Syndrome vs. Parental Alienation: Which Diagnosis Should Evaluators Use in Child-Custody Disputes? *The American Journal of Family Therapy*, 30(2), 93–115. <https://doi.org/10.1080/019261802753573821>

Gardner, R.A., 2004. Commentary on Kelly and Johnston's "The alienated child: A reformulation of parental alienation syndrome". *Family Court Review*, 42(4), tt.611-621.

Godbout, E., a Parent, C. (2012). The Life Paths and Lived Experiences of Adults Who Have Experienced Parental Alienation: A Retrospective Study. *Journal of Divorce and Remarriage*, 53, 34–54. <https://doi.org/10.1080/10502556.2012.635967>

Gomide, P. I. C., Camargo, E. B., a Fernandes, M. G. (2016). Analysis of the Psychometric Properties of a Parental Alienation Scale. *Paidéia (Ribeirão Preto)*, 26(65), 291–298. <https://doi.org/10.1590/1982-43272665201602>

Halliday, E., Green, R. a Marsh, B. (2017) *Private law cases that return to court: A Cafcass study* <https://www.cafcass.gov.uk/2017/11/28/cafcass-publishes-new-research-private-law-cases-return-court/>

Hands, A. J., a Warshak, R. A. (2011). Parental Alienation Among College Students. *The American Journal of Family Therapy*, 39(5), 431–443. <https://doi.org/10.1080/01926187.2011.575336>

Hill, A. (2017) 'Divorcing parents could lose children if they try to turn them against partner' *The Guardian* 28 Tachwedd

Hunter, R. a Barnett, A. (2013) *Fact-Finding Hearings and the Implementation of the President's Practice Direction: Residence and Contact Cases: Domestic Violence and Harm*. Adroddiad prosiect. Cyngor Cyfiawnder i Deuluoedd

Jaffe P.G., Ashbourne, D. a Mamo A. A. Early Identification and Prevention of Parent–Child Alienation *Family Court Review*, 48(1), 136-152 <https://doi.org/10.1111/j.1744-1617.2009.01294.x>

Johnston, J. R. (2003). Parental Alignments and Rejection: An Empirical Study of Alienation in Children of Divorce. *J Am Acad Psychiatry Law*, 31, 158–70. <http://jaapl.org/content/jaapl/31/2/158.full.pdf>

Johnston, J. R., Walters, M. G., a Olesen, N. W. (2005). Is it alienating parenting, role reversal or child abuse? A study of children's rejection of a parent in child custody disputes. *Journal of Emotional Abuse*, 5(4), 191–218.

Johnston, J. R., a Goldman, J. R. (2010). Outcomes of family counselling interventions with children who resist visitation: and addendum to Friedlander and Walters (2010). *Family Court Review*, 48(1), 112–115

Kelly, J. B., a Johnston, J. R. (2001). The alienated child: A reformulation of parental alienation syndrome. *Family Court Review*, 39(3), 249–266.

Lavadera, A. L., Ferracuti, S., a Togliatti, M. M. (2012). Parental Alienation Syndrome in Italian legal judgments: An exploratory study. *International Journal of Law and Psychiatry*, 35, 334–342. <https://doi.org/10.1016/j.ijlp.2012.04.005>

Lee, S. M., a Olesen, N. W. (2005). Assessing for alienation in child custody and access evaluations. *Family Court Review*, 39(3), 282–298. <https://doi.org/10.1111/j.174-1617.2001.tb00611.x>

McFarlane, A. (2018) Contact: A point of view. Prif anerchiad, Cynhadledd Flynyddol Nagalro. Llundain.

Meier, J. S. (2009). A Historical Perspective on Parental Alienation Syndrome and Parental Alienation. *Journal of Child Custody*, 6(3–4), 232–257. <https://doi.org/10.1080/15379410903084681>

Moné, J. G., a Biringen, Z. (2006). Perceived parent–child alienation: Empirical assessment of parent–child relationships within divorced and intact families. *Journal of Divorce & Remarriage*, 45(3–4), 131–156.

National Institute for Clinical Excellence (NICE) (2012) *Methods for the development of NICE public health guidance (trydydd argraffiad)*. Ar gael yn: <https://www.nice.org.uk/process/pmg4/chapter/introduction>

Pepiton, M.B., Alvis, L.J., Allen, K. a Logid, G. (2012). Is parental alienation disorder a valid concept? Not according to scientific evidence. A review of parental alienation, DSM-5 and ICD-11 gan William Bernet. *Journal of Child Sexual Abuse*, 21(2), tt.244-253.

Reay, K. M. (2015). Family Reflections: A Promising Therapeutic Program Designed to Treat Severely Alienated Children and Their Family System. *The American Journal of Family Therapy*, 43(2), 197–207

Rueda, C. A. (2004). An Inter-Rater Reliability Study of Parental Alienation Syndrome. *The American Journal of Family Therapy*, 32(5), 391–403. <https://doi.org/10.1080/01926180490499864>

Saini, M, Johnston, J., Fidler, B., Bala, N. (2016). Empirical evidence of alienation. Yn Leslie Drozd, Michael Saini and Nancy Olesen (Golygyddion). *Parenting Plan Evaluations: Applied Research for the Family Court (2nd edition)*. Efrog Newydd: NY. Oxford University Press.

Schepard, A. (2001). Nodiadau golygyddol. *Family Court Review*, 39, 243–245.

Spruijt, E., Eikelenboom, B., Harmeling, J., Stokkers, R., a Kormos, H. (2005). Parental Alienation Syndrome (PAS) in the Netherlands. *The American Journal of Family Therapy*, 33(4), 303–317. <https://doi.org/10.1080/01926180590962110>

Stevenson, L. (2017) Parental alienation: It is critical social workers know how to recognise this. *Community Care* 18 Rhagfyr 2017

Sturge, C. a Glaser, D. (2000) Contact and Domestic Violence: The experts court report. *Family Law* 615-632

Sullivan, M. J., Ward, P. A., a Deutsch, R. M. (2010). Overcoming barriers family camp: a program for high-conflict divorced families where a child is resisting contact with a parent. *Family Court Review*, 48(1), 116–135

Templer, K., Matthewson, M., Haines, J., a Cox, G. (2017). Recommendations for best practice in response to parental alienation: findings from a systematic review. *Journal of Family Therapy*, 39(1), 103–122

Toren, P., Bregman, B. L., Zohar-Reich, E., Ben-Amitay, G., Wolmer, L., a Laor, N. (2013). Sixteen-Session Group Treatment for Children and Adolescents With Parental Alienation and Their Parents. *The American Journal of Family Therapy*, 41(3), 187–197

Thomas, J., Newman, M. and Sandy, O. (2013) Rapid evidence assessments to inform social policy taking stock and moving forward. *Evidence and Policy*, 9(1), 5-27.

The Transparency Project (2017) *"It blew up too for us": Cafcass explain their position on alienation*. 3 Rhagfyr 2017
<http://www.transparencyproject.org.uk/it-blew-up-too-soon-for-us-cafcass-explain-their-position-on-alienation/>

- Trinder, L., Hunt, J., Macleod, A., Pearce, J., a Woodward, H. (2013). *Enforcing contact orders: problem-solving or punishment*. Ar gael yn: <https://ore.exeter.ac.uk/repository/handle/10871/16765> (Accessed 28.02.18)
- Vassiliou, D., a Cartwright, G. F. (2001). The Lost Parents' Perspective on Parental Alienation Syndrome. *The American Journal of Family Therapy*, 29(3), 181–191. <https://doi.org/10.1080/019261801750424307>
- Verrocchio, M. C., a Baker, A. J. L. (2015). Italian Adults' Recall of Childhood Exposure to Parental Loyalty Conflicts. *Journal of Child and Family Studies*, 24(1), 95–105. <https://doi.org/10.1007/s10826-013-9816-0>
- Wallerstein, J.S. a Kelly, J.B. (1976). The effects of parental divorce: experiences of the child in later latency. *American Journal of Orthopsychiatry* 46, 256–69.
- Warshak, R.A. (2006) Social science and parental alienation: Examining the disputes and the evidence yn Gardner, R.A., Sauber, S.R. a Lorandos, D.(eds) *The International Handbook of Parental Alienation Syndrome* pp 352-371. Springfield: Charles C. Thomas.
- Warshak, R. A. (2010). Family Bridges: Using insights from social science to reconnect parents and alienated children. *Family Court Review*, 48(1), 48–80
- Whitcombe, S. (2017). Powerless to parent; powerless to protect: The experiences of alienated parents in the UK. *Maltrattamento e abuso all'infanzia*, 19(1), 47-66.
- Zartman, W. I., ac Aurik, J. (1991). Power strategies to de-escalation. In Louis Kriesberg a Stuard J. Thorson (Golygyddion), *Timing the de-escalation of international conflicts* (tt. 152–181). Efrog Newydd: Syracuse University Press.

Atodiad A

Tabl 1. Achosion Llys Apêl Diweddar

Achos	Crynodeb	Canlyniad
<i>Re A (A Child)</i> [2013] EWCA Civ 1104 Barnwr: McFarlane LJ	Roedd achosion hirfaith trwy gydol bywyd y plentyn. Yn 13 oed, mynegodd ddymuniad i'r achosion rheolaidd ddod i ben, a dderbyniwyd gan yr Uchel Lys. Dadleuodd y tad, nad oedd yn preswyl yno, bod hyn yn ganlyniad i elyniaeth ddifaddeuant y fam breswyl ac nid teimladau gwirioneddol y plentyn.	Canfyddodd yr Uchel Lys bod y tad yn anghredadwy ac ailgyfeiriwyd yr achos i'r Uchel Lys ar gyfer ailwrandawriad. (Ni chanfuwyd adroddiad pellach gan yr Uchel Lys.)
<i>Re A</i> [2015] EWCA Civ 969 Barnwr: Ryder LJ	Gwrthwynebwyd cyswllt yn chwyrn gan y plentyn 12 oed. Roedd adroddiad Cafcass ac adroddiad seicolegydd wedi dod i gasgliad y byddai'r plentyn yn cael niwed drwy gael cyswllt wedi ei orfodi arno. Roedd, yn yr achos hwn, adroddiadau seicolegol bod gan y fam iselder dwys a gorbryder yn sgil straen ôl-drawmatig, ond nad oedd hi wedi ei hysgogi i gael triniaeth am eu bod yn gweld mai pwrpas hynny fyddai sicrhau bod y ffordd yn glir i'r tad gael cyswllt.	Gorchymyn i beidio cael cyswllt
Cyf. Q (Plentyn) [2015] EWCA Civ 991 Barnwr: Munby P	Daeth y llys i'r casgliad bod y plentyn wedi dioddef niwed emosiynol arwyddocaol oedd yn parhau heb ei drin, wrth iddo fyw mewn awyrgylch oedd mor elyniaethus tuag at ei dad. Cyngorodd clinic a'r gwarcheidwad r 16.4 bellach mai'r unig opsiwn oedd therapi i'r plentyn, ond na allai hyn ddigwydd wrth i'r achosion barhau. Roedd yr effaith gafodd bod yn ddarostyngedig i geisiadau llys ar y plentyn yn atal y therapi rhag gweithio. Gwnaeth y tad gais am orchymyn trefniadau plant, ond gwnaeth y barnwr, yn lle hynny orchymyn mater penodol bod y plentyn yn mynychu clinic therapi.	Cafodd yr apêl ei wrthod. Roedd y barnwr wedi bod yn realistig yn ei werthusiad, yn sicr yn y deunyddiau o'i flaen, y byddai unrhyw ymdrech bellach i orfodi cyswllt trwy rym y gyfraith bron yn siŵr o fethu ac, ar yr un pryd yn niweidiol i'r plentyn.

RE L-H (Rhagfyr 2017, nas cofnodwyd: Westlaw crynodeb yn unig)	Yn wreiddiol roedd yr achos hwn yn achos cyfraith breifat, ond daeth yr awdurdod lleol yn rhan o bethau oherwydd bod y drwgdeimlad rhwng y rhieni yn cael effaith negyddol ar y plant. Gwnaed cais am orchmynion gofal. Argymhellodd seicolegydd bod y plant yn cael eu rhoi mewn gofal maeth wrth aros am asesiadau. Cytunodd Llys Teuluol Newcastle, a gwneud gorchymyn gofal interim i'r effaith hwnnw. Apeliodd y fam. (Roedd y plant yn bedair a chwech oed. Nid oes manylion yng nghrynodeb yr achos am eu barn nhw.)	Cafodd yr gorchymyn gofal interim ei gadarnhau gan y Llys Apêl; roedd symud ar unwaith wedi bod yn angenrheidiol oherwydd y niwed emosiynol a oedd yn cael ei achosi i'r plant gan farn y fam ar y tad
<i>Re J</i> [2018] EWCA Civ 115 Barnwr: McFarlane LJ	Mynegodd tri phlentyn yn eu harddegau deimladau cryf yn erbyn gweld eu tad. Roedd gorchymyn peidio ag ymyrryd am ddwy flynedd wedi ei wneud yn erbyn y tad ac roedd bellach yn herio hwnnw. Cafodd achosion yr FLA 1996 eu cyfnerthu gyda'i gais am orchmynion a 8. Roedd y tad wedi gwneud ei geisiadau ym mis Ionawr 2015 ond roedd pryderon bod y partïon yn cael eu tangynrychioli ac y byddai'r gwrandawriad yn golygu croesholi'r fam a'r plentyn hynaf. Cyrhaeddodd y mater wrandawriad terfynol ym mis Gorffennaf 2016 heb i ganfyddiadau am ffeithiau gael eu gwneud. Ar y cyfnod hwnnw, derbyniodd y barnwr farn y gwarcheidwad r. 16,4 bod y plant yn bendant yn eu barn ac na fyddai dod o hyd i ffeithiau yn newid hynny.	Cafodd penderfyniad y barnwr ar geisiadau adran 8 ei gadarnhau. Roedd yn rhy hwyr, ac yn groes i fuddiannau lles y naill neu'r llall o'r plant, i ystyried ailwrandawriad.

Tabl 2. Honiadau aflwyddiannus o ddieithrio plentyn oddi wrth riant– Llys Apêl a’r Uwch Lys

Achos	Crynodeb
<i>Re D (A Child)</i> [2015] EWCA Civ 829	Honnodd y tad bod y fam wedi ei ddieithrio. Cadarnhaodd y Llys Apêl ganfyddiad gan y Llys Teuluol nad oedd y fam wedi hyfforddi’r plentyn er bod y plentyn wedi deall ei bod yn orbryderus a bod ganddi ragdybiaeth negyddol o’r tad. Nid oedd gorchymyn am gyswllt.
<i>PM v MB & Anor</i> [2013] EWCA Civ 969	Daeth y Llys Apêl i’r casgliad bod y tad yn risg i’r plentyn ac nad oedd wedi ei gam-gynrychioli gan y fam breswyl na’r dystiolaeth arbenigol. Y rhwystr rhag cyswllt oedd y byddai’r tad yn parhau i fod yn risg i’r plentyn tan ei fod yn sylweddoli bod angen help arno ac yn derbyn y dystiolaeth arbenigol, nad oedd wedi ei wrth-ddweud, ynglŷn â’i ymddygiad.
<i>Re W (Children)</i> [2007] EWCA Civ 786	Darganfyddodd y Llys Apêl bod y plant wedi mynd i sesiynau cyswllt yn flaenorol yr oedden nhw wedi eu mwynhau, ac nad oedd y fam yn rhwystro, ond yn annog cyswllt. Gwnaeth yr Uchel Lys orchymyn o blaid y tad yr oedd ef yn gwrthod ymgymryd ag ef. Cadarnhawyd y gorchymyn gwreiddiol am gyswllt dan oruchwyliaeth.
<i>RE B (A Child); Re O (A Child)</i> [2013] EWCA Civ 1199	Roedd y tad yn mynnu cael asesiad o’i blant gan Dr Lowenstein (seicolegydd) ond roedd barnwr yr Uchel Lys wedi cwrdd â’r plant ei hun ac wedi dod i’r casgliad bod eu barn yn annibynnol o farn y fam. Nid oedd angen asesiad pellach. Cytunodd y Llys Apêl mai bai y tad yn gyfan gwbl ydoedd bod y perthnasau wedi eu chwalu
<i>Re ER (A Child) (no. 2)</i> [2017] EWHC 2033 (Fam)	Dadleuodd y tad nad oedd y barnwr yn cydnabod bod y plentyn wedi ei ddieithrio oddi wrth ei rieni. Cytunodd Baker J â barnwr y Llys Teuluol bod honiadau o ddieithrio’r plentyn oddi wrth ei rieni heb eu cyfiawnhau a bod ymddygiad y tad yn achosi niwed emosiynol i’r plentyn. Roedd angen cyswllt dan oruchwyliaeth tan y gallai ganolbwyntio ar wneud ei orau i wneud cyswllt yn brofiad cadarnhaol iddi hi.
<i>C v D</i> [2017] EWHC 807 (Fam)	Roedd hwn yn achos oedd yn ymwneud ac adleoli a chipio rhyngwladol. Roedd y tad yn honni bod y plant wedi cael eu dieithrio oddi wrtho, Tystiolaeth Cafcass oedd eu bod yn teimlo’n

	ynysig yn y DU, yn gweld eisiau Canada ac eisiau dychwelyd yno. Er na allai'r llys ddiystyru'r posibilrwydd eu bod wedi cael eu hyfforddi, roedd y tad wedi methu â phrofi bod hyn wedi digwydd.
<i>Re M v L (Children)</i> [2016] EWHC 2535 (Fam)	Mewn achos arall diweddar Confensiwn yr Hag, roedd y fam eisiau byw yn Norwy. Roedd hi'n honni bod y tad wedi dieithrio'r plentyn a bod llysoedd a gweithwyr proffesiynol Norwy yn gallu mynd i'r afael â'r mater yn well na llysoedd Lloegr. Penderfynodd Baker J fod llysoedd Lloegr yn gallu dadansoddi her i ddieithrio rhieni gystal â llys yn Norwy.
<i>Re O (A Child) (Contact)</i> [2003] EWHC 3031 (Fam)	Mae hwn yn achos Uwch Lys hyn ble roedd Wall J yn cytuno â'r barnwyr yn y llysoedd is nad oedd hwn yn achos o ddieithrio plentyn oddi wrth riant ond yn ymdrech gan y tad i'w ryddhau ei hun o gyfrifoldeb dros y berthynas wael.
<i>Re L V H and M</i> [2000] EWCA Civ 194	Roedd y partïon wedi cytuno i ddweud wrth seicolegydd plant i gynghori ynglŷn â chyswllt ond roeddent wedi cael anhawster yn dod o hyd i un ac yn y pendraw gofynnwyd i Dr Lowenstein a ddaeth i'r casgliad bod hwn yn achos PAS nodweddiadol. Argymhellodd Lowenstein o leiaf chwe sesiwn o therapi ganddo ef ei hun. Creodd hyn broblem ariannu i'r partïon oherwydd bod cymorth cyfreithiol yn cynnwys asesu yn unig ac nid therapi. Roedd y barnwr yn anhapus am ganfyddiadau a chasgliadau Lowenstein. Dylai'r barnwr fod wedi rhoi rhesymau dros wrthod tystiolaeth Lowenstein, sef y dylai'r plentyn a'r rhieni gael triniaeth drwy therapi gyda bygythiadau unionyrchol i'r fam pe na fyddai'n cydweithredu. Roedd hefyd wedi gwrthod y syniad mai therapi tymor hir seicdreiddiad gwybodus oedd y driniaeth o ddewis a'r llenyddiaeth a oedd o blaid tynnu'r plentyn oddi yno a chyfnod o ddim cyswllt gyda'r rhiant preswyl. Gwnaeth Butler-Sloss LJ sylw bod cyfreithwyr y rhieni, yn anffodus, wedi eu cyfeirio at y math anghywir o'i arbenigwr, ac yn fwy difrifol, rhywun nad oedd yn y brif ffrwd.

Tabl 3. Achosion ble cafodd dieithrio ei enwi – Y Llys Apêl a'r Uwch Lys

Achos	Crynodeb
<i>Re M (Intractable Contact Dispute: Interim Care Order)</i> [2003] EWHC 1024 (Fam)	Roedd y plant mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol oherwydd bod y fam yn eu trwytho mewn credoau ffug eu bod wedi cael eu cam-drin gan eu tad a'u nain a thaid ar ochr eu tad ac o ganlyniad roedd y tad a'i rieni wedi cael eu rhwystro rhag cael unrhyw gyswllt â'r plant. O ystyried barn arbenigol Dr Weir a'r gwarcheidwad sef bod y plant yn dioddef niwed emosiynol arwyddocaol yr oedd modd ei osgoi gan eu mam a oedd yn debygol o arwain atyn nhw'n tyfu i fod yn oedolion oedd wedi eu hanafu'n emosiynol, roedd hi er budd i'r plant i fynnu gorchymyn a 37. Roedd yr awdurdod lleol wedyn wedi adrodd y bydden nhw'n parhau i ddioddef niwed arwyddocaol o dan ei dylanwad hi. Mynnodd y llys orchymyn gofal interim gan dynnu'r plant o ofal y fam i ofalwyr maeth ble y gallen nhw gael eu hasesu'n llawn yn ei habsenoldeb. O ganlyniad i'r asesiad hwnnw, cafodd gorchymyn preswyllo ei wneud o blaid y tad gyda gorchymyn goruchwyllo am ddwy flynedd, gyda chyswllt rhwng y plant a'u mam i ddigwydd yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol.
<i>Re L and M (Children: Private Law)</i> [2014] EWHC 939 (Fam), Macur J dyfynnwyd gan Pauffley J.	Roedd hwn yn achos cymhleth Confensiwn yr Hag. Mewn gwrandawriad cynharach ar dystiolaeth am wrthwynebiad y plant dros symud i Israel, roedd Macur J wedi dweud: <i>fe wnaeth y plentyn "searched" the father for recording equipment as a result of something said in their present home shared with mother and grandparents. This suggests parental alienation at the hands of the mother or her parents. It is reprehensible behaviour. I note that the mother has amassed support for her cause from the ranks of many friends and acquaintances. There is a danger that the father becomes demonised in the child's eye to his / her ultimate detriment.</i>"
<i>Re T (A Child) (Cyswllt: Alienation: Permission to</i>	Penderfynodd y Llys Apêl fod rhaid i gasgliad ynglŷn â dieithrio plant oddi wrth rieni godi o'r dystiolaeth am ymddygiad y plentyn. Er nad oedd y Llys yn cytuno â'r tad <i>mai'r</i> unig

Appeal) [2002] EWCA Civ 1736	eglhurhad oedd bod hyn wedi ei achosi gan y fam, caniatawyd yr apêl oherwydd bod y barnwr wedi methu gwneud canfyddiad ynglŷn ag a oedd dieithrio wedi bod gan y fam neu beidio. Cafodd yr achos ei drosglwyddo i'r Uchel Lys gyda'r awgrym y dylai amodau gael eu gosod yn eu lle er mwyn i'r cyswllt barhau ac y dylai'r plentyn gael cynrychiolaeth ar wahân.
<i>Re C (Children)(Prohibition on Further Applications)</i> [2002] EWCA Civ 292	Daeth y llys i'r casgliad bod y tad yn bryderus am 'PAS ' a bod hyn yn atal ei ddealltwriaeth am ofid y plentyn. Awgrymodd Butler-Sloss LJ wrth yr Uchel Lys y dylid ystyried ei honiadau ond ddim ond yn y cyd-destun o ymchwiliad llawn i'r ffeithiau. Ni wnaeth nodi y dylid anwybyddu PAS, ond na ddylid ond gweld honiadau'r tad fel un ffactor o fewn y sefyllfa.
<i>Re S (A Child)</i> [2010] EWHC 3721 (Fam) <i>Re S (A Child)</i> [2010] EWHC 192 (Fam)	Mae hefyd pedwar dyfarniad heb eu cyhoeddi yn yr achos hwn. Efallai y bydd y rhesymu manwl yn ddefnyddiol fel canllaw wrth ystyried trosglwyddo preswylfa, ond roedd gan y trefniadau'r budd o fewnbwn sylweddol gan y seicolegydd plant. Roedd Dr Weir wedi adrodd bod y plentyn wedi ei ddieithrio gan y fam, heb reswm dilys, ond ei fod wedi argymhell peidio â'i symud. Anghytunodd HHJ Bellamy a gwneud gorchymyn preswyllo ar gyfer y tad am resymau a eglurwyd yn ofalus. 1. Roedd S eisoes wedi dioddef niwed emosiynol. Roedd tystiolaeth gan Dr Weir am y perygl o ganlyniadau tymor hir anawsterau ymddygiad, tangyflawni academaidd ac anawsterau perthynas. 2. Derbyniodd y llys dystiolaeth Dr Weir, sef bod y farn fynegodd S (dweud ei fod yn casáu ei dad) yn ganlyniad i ddieithrio, yn afresymegol ac yn anghredadwy. Roedd tystiolaeth fideo o S yn hapus ac yn ymlaciedig yng nghwmni'r tad. Mae'n bosibl nad yw'r dymuniadau a theimladau a fynegwyd gan S yn adlewyrchu ei ddymuniadau a'i deimladau gwirioneddol. 3. Doedd gan y tad ddim casineb na drwg deimlad tuag at y fam ac roedd yn gallu cynnal perthnasoedd gyda S yn well. 4. Roedd y tad a'i deulu yn gallu diwallu anghenion addysgol a chorfforol S I'r un safon â'r fam. 5. Roedd y fam wedi gwneud peth datblygiad rhwng 2007 a 2009 ond roedd ei gweithredoedd o bosibl â'r bwriad o gamarwain, ac roedd y pryderon amdani ond wedi lleihau ychydig. 6. Roedd gorchmynion llys blaenorol wedi bod yn aneffeithiol. Ni fyddai gorchmyn newydd am gyswllt anuniongyrchol yn arwain at ail-adfer y berthynas. Y posibilrwydd

	mwyaf tebygol oedd dim perthynas o gwbl, oni bai bod S yn cysylltu â'i dad fel oedolyn. 7. Roedd hi'n rhy hwyr i'r fam annog S i weld ei dad ac roedd y barnwr yn amau a oedd ganddi'r ysgogiad I wneud hynny.
<i>Re A (A child)</i> [2007] EWCA Civ	Roedd gorchmynion am drosglwyddo preswylfa a gorchymyn am gymorth teuluol wedi eu gwneud gan y cofnodydd ar sail argymhellion cadarn gan seicolegydd a gweithiwr cymdeithasol annibynnol. Er nad oedd y plentyn 8 oed wedi cael niwed eto gan lefel y gwrthdaro a gynhyrchwyd gan y fam, byddai'r dieithrio parhaus y byddai'r fam yn ei achosi a'r pwysau emosiynol dilynol arno yn arwain at anawsterau seicolegol arwyddocaol.
<i>Re L-W</i> [2010] EWCA Civ 1253	Er bod peth tystiolaeth yn adroddiad Cafcass o ddylanwad y tad, canfyddodd y Llys Apêl bod y ffaith bod y plentyn yn gwrthod cydymffurfio â chyswllt yn annibynnol ac wedi ei seilio ar ei ddicter ei hun oherwydd bod ei rieni wedi gwahanu. Daeth Sedley LJ i'r casgliad na fyddai cosbi'r tad yn cyflawni unrhyw welliant yn agwedd y plentyn ac fe allai arwain ganlyniad oedd i'r gwrthwyneb i'r un a fwriadwyd.

Tabl 4. Achosion Llys Teulu

Achos	Llys
<i>Q v R (Intractable Contact)</i> [2017] EWFC B35	Rhydychen
<i>Re B (A 14 year old Boy)</i> [2017] EWFC B28	Newcastle
<i>Re B (Change of residence: parental alienation)</i> [2017] EWFC B24	Norwich FC
<i>Re C (Prohibited steps order)</i> [2016] EWFC B97	Canol Llundain
<i>Re MB (Experts' Court Report)</i> [2015] EWFC B178	Medway
<i>Re J (Discharge of a Care Order)</i> [2014] EWFC B199	Chelmsford
<i>London Borough of Barnet v M/F</i> [2014] EWFC B152	Barnet

Atodiad B

Gwnaed yr adolygiad llenyddiaeth rhwng Ionawr a Chwefror 2018. Defnyddiodd yr ymchwiliad nifer o chwiliadau geiriau allweddol i ddod o hyd i'r astudiaethau empeiraidd mwyaf perthnasol ar ddieithrio plentyn oddi wrth ei rieni mewn dadleuon o wrthdaro mawr dros drefniadau gofal plant. Er y defnyddir y term 'dieithrio plentyn oddi wrth riant' yn eang o fewn yr Unol Daleithiau, Canada ac Ewrop, mae'r Deyrnas Unedig hefyd wedi mabwysiadu'r term 'gelyniaeth ddifaddeuant' wrth gyfeirio at achosion o wrthdaro mawr ble gall un rhiant arddangos gelyniaeth neu gyndynrwydd i'r rhiant arall gael mynediad at gyswllt â'r plentyn. Felly, y prif dermau a ddefnyddiwyd oedd "dieithrio plant oddi wrth riant", "dieithrio" a "gelyniaeth ddifaddeuant. (Ffigur un)

Tabl un: Termau chwilio

PRIF	"Dieithrio plant oddi wrth riant" neu "dieithrio" NEU "gelyniaeth ddifaddeuant"
A	Preswylad* NEU gyswllt NEU warchodaeth plentyn NEU Lys
CYFYNGU I	2000 – presennol Saesneg

Gwnaed chwiliadau lluosog ar hyd pedair cronfa ddata Gwyddorau Cymdeithasol (Applied Social Sciences Index and Abstracts, International Bibliography of the Social Sciences, Social Services Abstracts and SCOPUS), Google Scholar, a phum cronfa ddata'r gyfraith (Westlaw, BAILII, Lexis Library, HeinOnline a Hudoc). Cafwyd llenyddiaeth lwyd o saith sefydliad (Cafcass England, Fathers 4 Justice, Families Need Fathers, Women's Aid, Gingerbread, Resolution a Association of Lawyers for Children). Mabwysiadwyd hefyd dechnegau caseg eira, ble chwilir ac adolygir cyfeiriadaeth am gyhoeddiadau perthnasol ar gyfer perthnasedd. Cynhyrchodd yr ymchwiliad cychwynnol 8,464 o bapurau (Ffigur un), ble cafodd 106 o bapurau eu cadw wedi iddynt gael eu sgrinio am berthnasedd ar sail y teitl a'r abstract. O'r 106 o bapurau, cafodd 61 papur eu gwrthod yn bennaf ar sail y ffaith nad oedd y papurau hyn yn empeiraidd, roedd diffyg manylder am fethodoleg yno neu nid oeddent yn berthnasol i nodau'r ymchwiliad (e.e. papurau oedd yn canolbwyntio ar gam-drin domestig a dieithrio). Felly, cadwyd 45 o bapurau.

Defnyddiwyd y termau 'dieithrio' a 'dieithr' ar y cronfeydd data cyfraith achosion rhwng 2000 a 2018 (gyda'r ychwanegiad o ddyfarniadau arwyddocaol eraill a ddyfynnwyd neu a ddefnyddiwyd yn y set cyntaf o ganlyniadau).

Ni chanfuwyd dyfarniadau yn y Goruchaf Lys (Tŷ'r Arglwyddi gynt). Edrychwyd ar ddyfarniadau perthnasol gan y Llys Apêl a'r Uchel Lys. Ar yr lefel hwn, gallai datganiadau o'r gyfraith osod cynsail ar gyfer penderfyniadau mewn achosion diweddarach. Roedd 4 dyfarniad yn Llys Hawliau Dynol Ewrop; mae'r rhain yn berswadiol yn unig. Dim ond 7 dyfarniad Llys Teuluol gafwyd wedi eu cyhoeddi ar BAILII yn y 4 blynedd diwethaf; caiff y dyfarniadau eu cyhoeddi at ddibenion addysg gyfreithiol gyhoeddus yn unig.

Ffigur un: Canlyniadau chwilio llenyddiaeth

